

Agenda – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 11 Mawrth 2019 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30 0300 200 6362
SeneddMCD@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

(Tudalennau 1 – 26)

Elin Jones AC, y Llywydd a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil;

Anna Daniel, Comisiwn y Cynulliad;

Matthew Richards, Comisiwn y Cynulliad

[Bil Senedd ac Etholiadau \(Cymru\)](#)

[Memorandwm esboniadol](#)

CLA(5)–09–19 – Papur briffio

CLA(5)–09–19 – Papur briffio cyfreithiol

3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

(Tudalennau 27 – 32)

CLA(5)–09–19 – Papur 1 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

3.1 SL(5)353 – Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2019



3.2 SL(5)334 – Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 **MAY MOVE TO REPORTING

4 Offerynnau a ystyriwyd yn flaenrol ar gyfer sifftio ac sydd bellach yn destun craffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

(Tudalennau 33 – 34)

CLA(5)–05–19 – Papur 2 – Adroddiadau clir ac eithrio pwynt rhinweddau sengl o dan Reol Sefydlog 21.3 (wedi bod yn destun sifftio)

4.1 SL(5)363 – Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

4.2 SL(5)377 – Rheoliadau Safonau a Labelu Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

5.1 SL(5)333 – Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019

(Tudalennau 35 – 45)

CLA(5)–09–19 – Papur 3 – Adroddiad

CLA(5)–09–19 – Papur 4 – Rheoliadau

CLA(5)–09–19 – Papur 5 – Memorandwm Esboniadol

5.2 SL(5)342 – Rheoliadau Parodrwydd i Ddal Carbon (Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan) (Diwygio) (Cymru) 2019

(Tudalennau 46 – 59)

CLA(5)–09–19 – Papur 6 – Adroddiad

CLA(5)–09–19 – Papur 7 – Rheoliadau

CLA(5)–09–19 – Papur 8 – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**5.3 SL(5)336 – Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol)
(Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

(Tudalennau 60 – 79)

CLA(5)–09–19 – Papur 9 – Adroddiad

CLA(5)–09–19 – Papur 10 – Rheoliadau

CLA(5)–09–19 – Papur 11 – Memorandwm Esboniadol

**5.4 SL(5)337 – Rheoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol)
(Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

(Tudalennau 80 – 96)

CLA(5)–09–19 – Papur 12 – Adroddiad

CLA(5)–09–19 – Papur 13 – Rheoliadau

CLA(5)–09–19 – Papur 14 – Memorandwm Esboniadol

**5.5 SL(5)338 – Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr
Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019**

(Tudalennau 97 – 182)

CLA(5)–09–19 – Papur 15 – Adroddiad

CLA(5)–09–19 – Papur 16 – Rheoliadau

CLA(5)–09–19 – Papur 17 – Memorandwm Esboniadol

**6 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad
arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau
o ganlyniad i ymadawriad y DU â'r UE**

**6.1 SL(5)356 – Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru)
(Diwygio) 2019**

(Tudalen 183)

CLA(5)–09–19 – Papur 18 – Adroddiad

7 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.7

7.1 SL(5)349 – Cod Ymarfer – Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019

(Tudalen 184)

CLA(5)–09–19 – Papur 19 – Adroddiad

7.2 SL(5)350 – Cod Ymarfer – Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018

(Tudalen 185)

CLA(5)–09–19 – Papur 20 – Adroddiad

7.3 SL(5)352 – Canllawiau statudol ar gyfer comisiynu gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru

(Tudalen 186)

CLA(5)–09–19 – Papur 21 – Adroddiad

8 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

8.1 WS–30C(5)118 – Rheoliadau Bwyd (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 187 – 190)

CLA(5)–09–19 – Papur 22 – Datganiad

CLA(5)–09–19 – Papur 23 – Sylwebaeth

8.2 WS–30C(5)123 – Rheoliadau Cyd–drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 191 – 195)

CLA(5)–09–19 – Papur 24 – Datganiad

CLA(5)–09–19 – Papur 25 – Sylwebaeth

**8.3 WS-30C(5)124 – Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc)
(Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019**

(Tudalennau 196 – 199)

CLA(5)-09-19 – Papur 26 – Datganiad

CLA(5)-09-19 – Papur 27 – Sylwebaeth

9 Papurau i'w nodi

**9.1 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch
Rheoliadau Asesu Cydymffurfiaeth (Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol)
2019**

(Tudalennau 200 – 202)

CLA(5)-09-19 – Papur 28 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau
Rhyngwladol, 1 Mawrth 2019

[Rheoliadau Asesu Cydymffurfiaeth \(Cytundebau Cydnabyddiaeth Gilyddol\)
2019](#)

**9.2 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit ynghylch Rheoliadau
Herio Dilysrwydd Offerynnau'r UE (Ymadael â'r UE) 2019**

(Tudalennau 203 – 204)

CLA(5)-09-19 – Papur 29 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog
Brexit, 5 Mawrth 2019

[Rheoliadau Herio Dilysrwydd Offerynnau'r UE \(Ymadael â'r UE\) 2019](#)

**9.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion
Gwledig at y Prif Weinidog ynghylch Craffu ar Femoranda Cydsyniad
Deddfwriaethol**

(Tudalennau 205 – 207)

CLA(5)-09-19 – Papur 30 – Llythyr gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
Amgylchedd a Materion Gwledig, 28 Chwefror 2019

**9.4 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Gofal Iechyd
(Trefniadau Rhyngwladol) – Gohebiaeth**

(Tudalennau 208 – 223)

CLA(5)–09–19 – Papur 31 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 28 Chwefror 2019

CLA(5)–09–19 – Papur 32 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol)

CLA(5)–09–19 – Papur 33 – Llythyr gan Stephen Hammond AS, y Gweinidog Gwladol dros Iechyd, at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 27 Chwefror 2019

CLA(5)–09–19 – Papur 34 – Diwygiad y Llywodraeth

CLA(5)–09–19 – Papur 35 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, at Stephen Hammond AS, y Gweinidog Gwladol dros Iechyd, 28 Chwefror 2019

10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

11 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Trafod y dystiolaeth

12 Bil Deddfwriaeth (Cymru): Adroddiad Drafft

(Tudalennau 224 – 326)

CLA(5)–09–19 – Papur 36 – Adroddiad drafft

CLA(5)–09–19 – Papur 36 – Atodiad

13 Blaenraglen Waith

(Tudalennau 327 – 332)

CLA(5)–09–19 – Papur 37 – Blaenraglen Waith

14 Trafodaeth ar Offerynnau Statudol sydd angen Cydsyniad: Brexit

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 11 Mawrth 2019

SL(5)353 – Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Roedd Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009 yn cysylltu uchafswm cyflog cynorthwyr gwleidyddol mewn awdurdodau lleol â phwynt penodedig ar raddfa gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol. Mae hyn yn golygu bod uchafswm cyflog cynorthwyr gwleidyddol yn cynyddu'n flynyddol yn unol â chodiadau cyflog y raddfa gyflog.

O 1 Ebrill 2019, bydd y Cyd-gyngor Cenedlaethol yn newid eu graddfeydd cyflog ac yn cyfuno rhai o'r pwyntiau cyflog. O ganlyniad, o 1 Ebrill 2019 ni fydd y pwynt cyflog cyfredol ar gyfer cynorthwyr gwleidyddol yn bodoli mwyach. Mae'r Gorchymyn hwn yn alinio graddfeydd cyflog cyfredol cynorthwyr gwleidyddol â'r raddfa gyflog newydd.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989

Fe'u gwnaed ar: 21 Chwefror 2019

Fe'u gosodwyd ar: 22 Chwefror 2019

Yn dod i rym ar: 01 Ebrill 2019

SL(5)334 – Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 9 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ("Deddf 2002").



Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol sy'n nodi

- y polisiau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid iddynt fod yn eu lle ym mhob gwasanaeth;
- y safonau cymorth sydd i'w darparu;
- gofynion penodol mewn perthynas â sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac wedi eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol;
- gofynion o ran staffio;
- gofynion penodol o ran addasrwydd unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaethau;
- gofynion ar reolwyr;
- gofynion mewn perthynas â monitro, adolygu a gwella ansawdd y cymorth a ddarperir; a
- gofynion amrywiol, yn cynnwys yr angen i bob gwasanaeth gael strategaeth yn ei lle i recriwtio nifer digonol o fabwysiadwyr.

Rhiant–Ddeddf: Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016; Deddf Mabynysiadau a Phlant 2002

Fe'u gwnaed ar: 17 Chwefror 2019

Fe'u gosodwyd ar: 19 Chwefror 2019

Yn dod i rym ar: 29 Ebrill 2019

**SL(5)323 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr)
(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019**



Gweithdrefn: Negyddol

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 ('Rheoliadau 2019') yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrсияu Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018; a
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau technegol ac yn cyflwyno nifer o newidiadau i faterion sy'n ymwneud â chymorth i fyfyrwyr, ac maent yn gymwys i'r blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar 1 Medi 2019 neu wedi hynny. Yn gryno, mae'r diwygiadau a wneir gan Rheoliadau 2019 yn ymwneud â:

Cynnydd i swm y Grant Myfyriwr Anabl;

Cynnydd i swm y cymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr cohort 2019;

Mae swm y cymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys a ddechreuodd eu cyrsiau ar 1 Medi 2012 neu wedi hynny, ond cyn 1 Awst 2019 ("Myfyrwyr Cohort 2012") yn cael ei gynyddu bob blwyddyn er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yn y costau byw;

Addasiad i'r cydbwysedd rhwng y grant ffioedd dysgu a'r benthyciad at ffioedd dysgu ar gyfer Myfyrwyr Cohort 2012 yn unol â'r polisi a gyflwynwyd ym mlwyddyn academaidd 2012/13;

Cymorth myfyrwyr ar gyfer plant ar eu pen eu hunain – categori newydd o gymhwysedd ar gyfer unigolion sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67 o Ddeddf Mewnffudo 2016;



Adolygu'r amodau cyrchfannau o ran cyrsiau yn Lloegr at ddibenion cymorth i fyfyrwyr;

Diwygiadau canlyniadol yn sgil y newid o'r System Cyd-godio Pynciau Academaidd (JACS) sy'n cael ei disodli gan y Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch (HECoS).

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983; Ddeddf Addysgu ac Addysg

Uwch 1998; Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

Fe'u gwnaed ar: 12 Chwefror 2019

Fe'u gosodwyd ar: 13 Chwefror 2019

Yn dod i rym ar: 08 Mawrth 2019

SL(5)331 – Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2019

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 186 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system newydd o gofrestru gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru, gan ddisodli'r un a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("Deddf 2000").

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn disodli'r system gofrestru ar gyfer darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol a nodir yn Rhannau 1 a 2 o Ddeddf 2000, sy'n cofrestru sefydliadau ac asiantaethau. Mae Deddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob lleoliad y darperir gwasanaeth gofal cymdeithasol ynddo gael ei gofrestru ar wahân.

Mae'r Ddeddf yn gweithredu dull gwahanol sy'n seiliedig ar y gwasanaeth. Rhaid i ddarparwr gofrestru â Gweinidogion Cymru er mwyn darparu unrhyw



wasanaeth gofal a chymorth sy'n wasanaeth rheoleiddiedig o dan y Ddeddf a bydd y cofrestriad hwnnw yn cynnwys manylion pob un o'r lleoliadau y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddynt.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cyfeirio, at ddibenion amrywiol, at un o'r categorïau o sefydliad neu asiantaeth a reoleiddid o dan Ddeddf 2000 er mwyn rhoi cyfeiriadau at y "gwasanaeth rheoleiddiedig" priodol o dan y Ddeddf yn lle'r cyfeiriadau hynny.

Cychwynnwyd Rhan 1 o'r Ddeddf ar 2 Ebrill 2018 mewn perthynas â'r gwasanaethau rheoleiddiedig a ganlyn—

- (a) gwasanaethau cartrefi gofal;
- (b) gwasanaethau llety diogel;
- (c) gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd;
- (d) gwasanaethau cymorth cartref.

Ar 29 Ebrill 2019, mae Rhan 1 o'r Ddeddf wedi ei chychwyn mewn perthynas â'r gwasanaethau rheoleiddiedig sy'n weddill—

- (a) gwasanaethau mabwysiadu;
- (b) gwasanaethau maethu;
- (c) gwasanaethau lleoli oedolion;
- (d) gwasanaethau eirioli (nid yw gwasanaethau eirioli wedi eu cofrestru o dan Ddeddf 2000 ar hyn o bryd).

Rhiant–Ddeddf: Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar: 15 Chwefror 2019

Yn dod i rym ar:





Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddiwriaethol

Tudalen 7 o 32

Offerynnau Statudol sydd ag adroddiadau clir, a ystyriwyd yn flaenorol ar gyfer sifftio ac sydd bellach yn ddarostyngedig i graffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

11 Mawrth 2019

Cafodd yr offerynnau canlynol eu hystyried yn flaenorol i'w sifftio yn unol â Rheol Sefydlog 21.3B. Yn y broses sifft, cytunodd y Pwyllgor ym mhob achos mai'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau oedd y weithdrefn penderfyniad negyddol. Bellach mae'r offerynnau yn ddarostyngedig i graffu arferol yn unol â Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3. Er bod gan yr holl offerynnau adroddiadau clir, maent hefyd yn cynnwys pwynt o ran rhinweddau i amlygu'r broses sifftio:

Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai'r weithdrefn negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n deillio o ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Er y bydd Cyfarwyddebau perthnasol yn parhau'n weithredol fel cyfraith yr UE a ddargeddiwr, byddant i'w darllen fel petai swyddogaethau Aelod-wladwriaeth yn swyddogaethau Gweinidogion Cymru, a chyfeiriadau at swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd wedi'u disodli.

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Gofynion sifftio wedi eu bodloni: 18 Chwefror 2019



Fe'u gwnaed ar: 26 Chwefror 2019

Fe'u gosodwyd ar: 28 Chwefror 2019

Yn dod i rym â: rheoliad 1(1)

SL(5)377 – Rheoliadau Safonau a Labelu Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ym maes cyfansoddiad a labelu bwyd.

Mae'r Rheoliadau hyn, ac eithrio rheoliad 6, i'w gwneud drwy arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 6 wedi ei wneud o dan adran 16 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 i ddiwygio Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015 i osod y dull dadansoddi y mae'n rhaid i awdurdodau bwyd ei ddefnyddio i wirio cydymffurfedd â gofynion y Rheoliadau hynny

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Gofynion sifftio wedi eu bodloni: 18 Chwefror 2019

Fe'u gwnaed ar: 4 Mawrth 2019

Fe'u gosodwyd ar: 5 Mawrth 2019

Yn dod i rym â: rheoliad 1(3)



SL(5)333 - Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ("Deddf 2002"). Mae Adran 2(6) o Ddeddf 2002 yn darparu bod cwnsela, cyngor a gwybodaeth, ac unrhyw wasanaethau eraill a ragnodir gan reoliadau, mewn perthynas â mabwysiadu, yn wasanaethau cymorth mabwysiadu.

Mae rheoliad 3(1) o'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gwasanaethau sy'n wasanaethau cymorth mabwysiadu.

Y weithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 2 yn cynnwys y diffiniad a ganlyn (ychwanegwyd y pwyslais):

Ystyr "rhiant mabwysiadol yw person-

- (a) y mae asiantaeth fabwysiadu wedi penderfynu yn unol â rheoliad 34(1) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ei fod yn rhiant mabwysiadol addas i blentyn penodol,
- (b) y mae asiantaeth fabwysiadu wedi lleoli plentyn gydag ef ar gyfer ei fabwysiadu,
- (c) sydd wedi rhoi hysbysiad o dan adran 44 o Ddeddf 2002 o'i fwriad i wneud cais am orchymyn mabwysiadu ar gyfer plentyn,
- (d) sydd wedi mabwysiadu plentyn, neu
- (e) sydd wedi mabwysiadu plentyn sydd wedi cyrraedd 18 oed ar ôl hynny,

ond nid yw'n cynnwys person sy'n llys-riant i'r plentyn neu'n rhiant geni i'r plentyn neu a oedd yn llys-riant i'r plentyn cyn iddo fabwysiadu'r plentyn.

O ran y diffiniad ym mharagraff (a), ymddengys bod y diffiniad yn gylchol, hy diffinnir rhiant mabwysiadol drwy gyfeirio at riant mabwysiadol. Rydym yn tybio y dylid diffinio rhiant mabwysiadol ym mharagraff (a) drwy gyfeirio at ddarpar fabwysiadu addas o dan reoliad 34(1) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005.



Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Mae elfen craffu technegol yr adroddiad drafft yn cyfeirio at un pwynt drafftio sy'n cael ei nodi.

Mae'r diffiniad o "rhiant mabwysiadol" yn rheoliad 2 yn adlewyrchu darpariaeth sy'n union yr un fath â darpariaeth a wneir mewn Rheoliadau presennol sydd hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch cyflenwi gwasanaethau cymorth mabwysiadu, sef Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1512 (Cy. 116)).

Cydnabyddir bod y diffiniad braidd yn gylchog. Fodd bynnag, mae'r geiriad yn is-baragraff (a) yn dal i weithio er mwyn ei gwneud yn glir bod y term "rhiant mabwysiadol" yn cynnwys y rheini sydd wedi eu cymeradwyo mewn perthynas â phlentyn penodol hyd yn oed os nad yw'r plentyn wedi ei leoli gyda hwy eto.

Ar y sail honno, ni fwriadwn gyflwyno unrhyw welliant i'r diffiniad gan ein bod wedi ein bodloni bod yr ystyr yn ddigon clir fel y'i drafftiwyd ac y caiff ei ddeall gan yr holl bersonau hynny y mae'r Rheoliadau yn effeithio arnynt neu y bydd y Rheoliadau yn effeithio arnynt.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

21 Chwefror 2019



2019 Rhif (Cy.)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth
Mabwysiadu (Cymru) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ("Deddf 2002"). Mae adran 2(6) o Ddeddf 2002 yn darparu bod cwnsela, cyngor a gwybodaeth, ac unrhyw wasanaethau eraill a ragnodir gan reoliadau, mewn perthynas â mabwysiadu, yn wasanaethau cymorth mabwysiadu. Mae rheoliad 3(1) o'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gwasanaethau sy'n wasanaethau cymorth mabwysiadu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2019 Rhif (Cy.)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth
Mabwysiadu (Cymru) 2019**

Gwnaed 17 Chwefror 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 19 Chwefror 2019

Yn dod i rym 29 Ebrill 2019

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(6)(b) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(1).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Ebrill 2019.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “Deddf 2002” (“*the 2002 Act*”) yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr “person perthynol” (“*related person*”) yw—

(a) perthynas o fewn ystyr “relative” yn adran 144(1) o Ddeddf 2002, neu

(1) 2002 p. 38; mae adran 144(1) o Ddeddf 2002 yn diffinio “regulations” fel rheoliadau a wneir gan y Gweinidog priodol, oni bai ei bod yn ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor, yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Cofrestrydd Cyffredinol eu gwneud. Mae adran 144(1) yn diffinio mai'r “appropriate Minister” (“y Gweinidog priodol”) o ran Cymru yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2002 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

- (b) unrhyw berson y mae gan y plentyn mabwysiadol berthynas ag ef yr ymddengys i'r awdurdod lleol ei bod yn fuddiol i les y plentyn gan roi sylw i'r materion y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (i) i (iii) o adran 1(4)(f) o Ddeddf 2002;

ystyr “plentyn mabwysiadol” (*“adoptive child”*) yw plentyn sy'n blentyn mabwysiadol drwy asiantaeth neu'n blentyn mabwysiadol heb fod drwy asiantaeth;

ystyr “plentyn mabwysiadol drwy asiantaeth” (*“agency adoptive child”*) yw plentyn—

- (a) mewn cysylltiad ag ef y mae asiantaeth fabwysiadu wedi penderfynu yn unol â rheoliad 19 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(1) y dylid ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu,
- (b) y mae asiantaeth fabwysiadu wedi ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu, neu
- (c) sydd wedi cael ei fabwysiadu ar ôl cael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gan asiantaeth fabwysiadu;

ystyr “plentyn mabwysiadol heb fod drwy asiantaeth” (*“non-agency adoptive child”*) yw plentyn—

- (a) mewn cysylltiad ag ef y mae person—
 - (i) wedi rhoi hysbysiad o dan adran 44 o Ddeddf 2002 o'i fwriad i wneud cais am orchymyn mabwysiadu, a
 - (ii) nad yw'n rhiant geni nac yn llys-riant i'r plentyn, neu
- (b) sydd wedi cael ei fabwysiadu gan berson—
 - (i) nad yw'n rhiant geni i'r plentyn, a
 - (ii) nad oedd yn llys-riant i'r plentyn cyn iddo fabwysiadu'r plentyn,

ond nid yw'n cynnwys plentyn mabwysiadol drwy asiantaeth;

ystyr “rhiant mabwysiadol” (*“adoptive parent”*) yw person—

- (a) y mae asiantaeth fabwysiadu wedi penderfynu yn unol â rheoliad 34(1) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ei fod yn rhiant mabwysiadol addas i blentyn penodol,
- (b) y mae asiantaeth fabwysiadu wedi lleoli plentyn gydag ef ar gyfer ei fabwysiadu,

(1) O.S. 2005/1313 (Cy. 96). a ddiwgiwyd gan O.S. 2009/1892, 2012/1905 (Cy. 232) a 2014/852; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

- (c) sydd wedi rhoi hysbysiad o dan adran 44 o Ddeddf 2002 o'i fwriad i wneud cais am orchymyn mabwysiadu ar gyfer plentyn,
- (d) sydd wedi mabwysiadu plentyn, neu
- (e) sydd wedi mabwysiadu plentyn sydd wedi cyrraedd 18 oed ar ôl hynny,

ond nid yw'n cynnwys person sy'n llys-riant i'r plentyn neu'n rhiant geni i'r plentyn neu a oedd yn llys-riant i'r plentyn cyn iddo fabwysiadu'r plentyn.

Gwasanaethau cymorth mabwysiadu

3.—(1) At ddibenion adran 2(6)(b) o Ddeddf 2002 mae'r gwasanaethau a ganlyn wedi eu rhagnodi fel gwasanaethau cymorth mabwysiadu—

- (a) cynhorthwy i rieni mabwysiadol, plant mabwysiadol, a phersonau perthynol mewn perthynas â threfniadau ar gyfer cyswllt rhwng plentyn mabwysiadol a rhiant geni neu berson perthynol i'r plentyn mabwysiadol;
- (b) gwasanaethau y gellir eu darparu mewn perthynas ag anghenion therapiwtig plentyn mewn perthynas â mabwysiadu'r plentyn;
- (c) cynhorthwy at ddiben sicrhau bod y berthynas rhwng plentyn a rhiant mabwysiadol y plentyn yn parhau, gan gynnwys—
 - (i) hyfforddiant ar gyfer y rhiant mabwysiadol at ddiben diwallu unrhyw anghenion arbennig y plentyn sy'n codi o'r mabwysiad hwnnw, a
 - (ii) yn ddarostyngedig i baragraff (3), gofal seibiant;
- (d) cynhorthwy pan amharwyd ar drefniant neu leoliad mabwysiadu neu pan fo perygl y bydd hynny yn digwydd, gan gynnwys—
 - (i) cyfryngu, a
 - (ii) trefnu a chynnal cyfarfodydd i drafod achosion o amharu ar fabwysiadu neu leoliadau;
- (e) cynhorthwy i bersonau mabwysiedig sydd wedi cyrraedd 18 oed i gael gwybodaeth mewn perthynas â'u mabwysiad neu i hwyluso cyswllt rhwng y personau hynny a'u perthnasau;
- (f) cynhorthwy i berthnasau personau mabwysiedig sydd wedi cyrraedd 18 oed i gael gwybodaeth mewn perthynas â'r mabwysiad hwnnw neu i hwyluso cyswllt rhwng y personau hynny a'r person mabwysiedig;
- (g) gwasanaethau i alluogi grwpiau o blant mabwysiadol, rhieni mabwysiadol a rhieni

geni neu gyn-warcheidwaid plentyn mabwysiadol i drafod materion sy'n ymwneud â mabwysiadu.

(2) At ddibenion paragraff (1)(e) ac (f), ystyr "perthynas" yw unrhyw berson a fyddai, oni bai am ei fabwysiad, yn perthyn i'r person mabwysiedig drwy waed, gan gynnwys hanner gwaed neu briodas.

(3) At ddibenion paragraff (1)(c)(ii), rhaid i ofal seibiant sy'n darparu llety fod yn llety a ddarperir gan neu ar ran awdurdod lleol o dan adran 81 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(1) neu gan sefydliad gwirfoddol o dan adran 59 o Ddeddf Plant 1989(2).

Julie Morgan

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion
Cymru
17 Chwefror 2019

(1) 2014 dccc 4.
(2) 1989 c. 41.

Explanatory Memorandum to The Adoption Support Services (Wales) Regulations 2019.

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Health and Social Services Department and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

Deputy Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of The Adoption Support Services (Wales) Regulations 2019 and I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

Julie Morgan

Deputy Minister for Health and Social Services

19 February 2019

PART 1

1. Description

These Regulations are made under the Adoption and Children Act 2002 (“the 2002 Act”). Section 2(6) of the 2002 Act provides that counselling, advice and information, *and any other services prescribed by regulations*, in relation to adoption, are adoption support services. Regulation 3(1) of The Adoption Support Services (Wales) Regulations 2019 (‘the Regulations’) prescribes those additional services which are ‘adoption support services’.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

There are no matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

3. Legislative background

The content of these Regulations was consulted upon – from 4 September to 27 November 2018 – within the draft Adoption Services (Service Providers and Responsible Individuals) and Local Authority Adoption Services (Wales) Regulations 2019. However, those draft Regulations were subsequently separated out into three statutory instruments due to their differing enabling Acts and procedures for scrutiny.

These are:

- The Regulated Adoption Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019
- The Local Authority Adoption Services (Wales) Regulations 2019
- **The Adoption Support Services (Wales) Regulations 2019**

The Adoption Support Services (Wales) Regulations 2019 are being made under the National Assembly for Wales’ negative resolution procedure.

4. Purpose and intended effect of the legislation

These Regulations, made under section 2(6) of the 2002 Act, prescribe additional types of adoption support services to be included within the meaning of ‘adoption support services’. These largely replicate the current adoption support services prescribed in regulation 2 of the Adoption Support Agencies (Wales) Regulations 2005 (these 2005 Regulations are to be replaced under the implementation of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (“the 2016 Act”) but also prescribe two further types of adoption support services:

- services to enable groups of adoptive children, adoptive parents and birth parents or former guardians of an adoptive child to discuss matters relating to adoption; and

- respite care.

5. Consultation

A 12-week consultation ran between 4 September and 27 November 2018, with 9 responses received in total (including one composite response, co-ordinated by the National Adoption Service). All responses have been analysed and considered by officials who have taken into account feedback received at the consultation events (held on 6 November in Cardiff and 8 November in Wrexham) and through wider engagement with the sector. Prior to consultation, the draft Regulations were developed and tested with the assistance of a stakeholder technical group which met several times in autumn/winter 2017-18.

A consultation summary report together with a list of respondents will be published on the Welsh Government website:

<https://beta.gov.wales/new-regulatory-framework-adoption-services>

6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

Officials have considered the need for a Regulatory Impact Assessment to accompany these Regulations. However given the limited impact that these regulations pose it has been decided that it is more appropriate to refer to the Explanatory Memorandum and the Regulatory Impact Assessment that has been completed for The Regulated Adoption Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019 and The Local Authority Adoption Services (Wales) Regulations 2019.

These Regulations add another two types of adoption support services, which were not in the original regulations which are to be replaced under the implementation of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (“the 2016 Act”). One of these is “services to enable groups of adoptive children, adoptive parents and birth parents or former guardians of an adoptive child to discuss matters relating to adoption”. The other is “respite care”.

In principle, where adoption support services are provided to individuals, the provider will be required to register as an adoption service under the 2016 Act and be subject to the provisions within the Regulated Adoption Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019 (“the 2019 Regulations”).

An Explanatory Memorandum and fully scoped Regulatory Impact Assessment to support the 2019 Regulations has been completed and will accompany the laid regulations to be found here:

<http://www.assembly.wales/en/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=5&category=Laid%20Document>

If either of these two additional types of adoption support services is also provided as part of the service provided by an adoption service then they will already be subject to the requirements within the 2019 Regulations.

However, a provider will not be required to register as an adoption service if it only provides services to enable groups of adoptive children, adoptive parents and birth parents or former guardians of an adoptive child to discuss matters relating to adoption. This is by virtue of the exception set out in regulation 3 of the 2019 Regulations. Also by virtue of regulation 3 of the 2019 Regulations, if the provision of respite care is as part of a registered care home/domiciliary care service or a child minding/day care service, the provider of these registered services will not be required to separately register as an adoption service.

Eitem 5.2

SL(5)342 – Rheoliadau Parodrwydd i Ddal Carbon (Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan) (Diwygio) (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn drwy arfer pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Parodrwydd i Ddal Carbon (Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan) 2013 ("Rheoliadau 2013") o ganlyniad i ddatganoli, drwy Ddeddf Cymru 2017, y swyddogaethau cydsynio ynni mewn perthynas â gorsafoedd cynhyrchu trydan yng Nghymru sydd â capasiti nad yw'n fwy na 350 megawat neu a fydd â'r capasiti hwn.

Fe wnaeth Rheoliadau 2013 weithredu Erthygl 36 o Gyfarwyddeb 2010/75/UE Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd integredig) (Ail-lunio) (OJ Rhif L334, 17.12.2010, t.17).

Mae rheoliad 2 yn mewnosod diffiniadau newydd.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 4 o Rheoliadau 2013 i wneud darpariaeth mewn perthynas â swyddogaethau newydd Gweinidogion Cymru o dan Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008 mewn perthynas â gweithfeydd hylosgi yng Nghymru gydag allbwn trydanol â sgôr rhwng 300 a 350 megawat.

Mae rheoliad 5 yn mewnosod rheoliad 6A newydd. Mae rheoliad 6A yn ymwneud â chaniatadau cynllunio ar gyfer adeiladu gweithfeydd hylosgi yng Nghymru gydag allbwn trydanol â sgôr rhwng 300 a 350 megawat (neu ar gyfer estyniadau i weithfeydd hylosgi yng Nghymru sydd â'r effaith o gynyddu sgôr allbwn trydanol y gweithfeydd i rhwng 300 a 350 megawat). Cyn rhoi caniatâd cynllunio o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod cynllunio lleol (fel sy'n berthnasol) benderfynu a yw amodau penodol yn cael eu diwallu mewn perthynas â dichonoldeb dal a storio carbon. Os caiff yr amodau eu diwallu, rhaid i'r caniatâd cynllunio gynnwys amodau o ran neilltuo gofod addas ar gyfer offer sy'n angenrheidiol i ddal a chywasgu'r holl garbon deuocsid a fyddai fel arall yn cael ei allyrru o'r weithfa.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

- 1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**



Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae dewis o weithdrefn mewn perthynas ag offerynnau a wneir o dan adran 2(2) o'r Ddeddf honno. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn esbonio y caiff y weithdrefn negyddol ei defnyddio yn yr achos hwn gan fod disgrisiwn Gweinidogion Cymru yn gyfyngedig o ran cynnwys yr offeryn gan ei fod yn dod â darpariaethau'r UE i rym.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Bydd Rheoliadau 2013 yn dod yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar y ddiwrnod ymadael, gan eu bod wedi'u gwneud o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

26 Chwefror 2019



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 294 (Cy. 72)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

TRYDAN, CYMRU

**Rheoliadau Parodrzydd i Ddal
Carbon (Gorsafoedd Cynhyrchu
Trydan) (Diwygio) (Cymru) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Parodrzydd i Ddal Carbon (Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan) 2013 ("Rheoliadau 2013") o ganlyniad i'r datganoliad, gan Ddeddf Cymru 2017, o swyddogaethau cydsynio ym maes ynni mewn perthynas â gorsafoedd cynhyrchu trydan yng Nghymru, y mae neu y bydd ganddynt gapasiti nad yw'n fwy na 350 o fegawatiau.

Gweithredodd Rheoliadau 2013 Erthygl 36 o Gyfarwydddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch allyriadau diwydiannol (dulliau integredig o atal a rheoli llygredd) (Ail-lunio) (OJ Rhif L334, 17.12.2010, t.17).

Mae rheoliad 2 yn mewnosod diffiniadau newydd.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 4 o Rheoliadau 2013 i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â swyddogaethau newydd Gweinidogion Cymru o dan Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008 mewn perthynas â chyfarparau hylosgi yng Nghymru y mae cyfradd eu hallbwn trydanol rhwng 300 a 350 o fegawatiau.

Mae rheoliad 5 yn mewnosod rheoliad 6A newydd. Mae rheoliad 6A yn ymwneud â chaniatadau cynllunio ar gyfer adeiladu cyfarparau hylosgi yng Nghymru y mae cyfradd eu hallbwn trydanol rhwng 300 a 350 o fegawatiau (neu ar gyfer estyniadau i gyfarparau hylosgi yng Nghymru sy'n cael yr effaith o gynyddu cyfradd allbwn trydanol y cyfarparau i rhwng 300 a 350 o fegawatiau). Cyn rhoi caniatâd cynllunio o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru neu'r awdurdod

cynllunio lleol (fel y bo'n gymwys) benderfynu a yw amodau penodol wedi eu bodloni o ran dichonoldeb dal a storio carbon. Os yw'r amodau wedi eu bodloni, rhaid i'r caniatâd cynllunio gynnwys amodau ar gyfer neilltuo lle addas ar gyfer yr offer sy'n angenrheidiol i ddal a chywasgu'r holl garbon deuocsid a fyddai fel arall yn cael ei allyrru o'r cyfarpar.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 294 (Cy. 72)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

TRYDAN, CYMRU

**Rheoliadau Parodrzydd i Ddal
Carbon (Gorsafoedd Cynhyrchu
Trydan) (Diwygio) (Cymru) 2019**

Gwnaed 18 Chwefror 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 20 Chwefror 2019

Yn dod i rym 1 Ebrill 2019

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) ac adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Parodrzydd i Ddal Carbon (Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan) (Diwygio) (Cymru) 2019 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2019.

-
- (1) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).
- (2) 2006 p. 32. Mewnosodwyd adran 58B gan adran 20(1) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4). Mae wedi ei diddymu yn rhagolygol gan baragraffau 27 a 34 o Atodlen 3 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) o ddyddiad sydd i'w bennu. Mae adran 58B yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio pwerau yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 fel pe baent yn un o Weinidogion y Goron neu'n un o adrannau'r llywodraeth a ddynodwyd gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan y ddarpariaeth honno, ar yr amod y byddai deddfwriaeth o'r fath o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel arall.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Parodrwydd i Ddal Carbon (Gorsafodd Cynhyrchu Trydan) 2013

2. Mae Rheoliadau Parodrwydd i Ddal Carbon (Gorsafodd Cynhyrchu Trydan) 2013⁽¹⁾ wedi eu diwygio fel a nodir yn rheoliadau 3 i 5.

Dehongli

3. Yn rheoliad 2(1) (dehongli) yn y manau priodol mewnosoder y diffiniadau a ganlyn—

““the 1990 Act” means the Town and Country Planning Act 1990⁽²⁾”;

““devolved combustion plant” means a combustion plant in Wales with a related electrical output of between 300 and 350 megawatts”;

““local planning authority” and “planning permission” have the meanings given in section 336 of the 1990 Act⁽³⁾”;

““relevant planning authority” means in relation to a relevant planning permission—

(a) where the development to which the application relates is of national significance for the purposes of section 62D of the 1990 Act⁽⁴⁾, the Welsh Ministers;

(b) in all other cases, the local planning authority”;

““relevant planning permission” means a planning permission—

(a) for the construction of a devolved combustion plant; or

(b) for an extension or alteration to a combustion plant in Wales which will have the effect of increasing the rated electrical output of the plant to between 300 and 350 megawatts”.

(1) O.S. 2013/2696.

(2) 1990 p. 8.

(3) Diwygiwyd adran 336 gan Ran 1 o Atodlen 19 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) a chan O.S. 2006/1281. Nid yw'r diwygiadau eraill yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(4) Mewnosodwyd adran 62D gan adran 19 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4).

**Newidiadau i orchmynion cydsyniad i ddatblygiad:
penderfynu'r parodrwydd i ddal carbon a'r
gofynion sydd i'w gosod pan fo'r amodau ynglŷn â
pharodrwydd i ddal carbon wedi eu bodloni**

4. Yn rheoliad 4 (newidiadau i orchmynion cydsyniad i ddatblygiad)—

(a) ar ddiwedd paragraff (1) ar ôl “(“the modified plant”)” mewnosoder “(but see paragraph (1A))”;

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) The Welsh Ministers must not—

(a) change a consent order in respect of a combustion plant in Wales with a rated electrical output of less than 300 megawatts in such a way as to enable the plant to have a rated electrical output of between 300 and 350 megawatts; or

(b) change a relevant consent order in respect of a devolved combustion plant in such a way as to enable a combustion plant to increase its rated electrical output to a maximum of 350 megawatts,

unless the Welsh Ministers have determined whether the CCR conditions are met in relation to the combustion plant, as constructed or extended in accordance with the consent order as so changed (“the modified plant”).”;

(c) ym mharagraff (2) ar ôl “determination under paragraph (1)” mewnosoder “and the Welsh Ministers’ determination under paragraph (1A)”;

(d) ym mharagraff (3)(a) ar ôl “determines” mewnosoder “under paragraph (1)”;

(e) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(3A) If the Welsh Ministers—

(a) determine under paragraph (1A) that the CCR conditions are met in relation to a combustion plant; and

(b) decide to—

(i) change a consent order in respect of that plant in the way described in paragraph (1A)(a); or

(ii) change a relevant consent order in respect of that plant in the way described in paragraph (1A)(b),

the Welsh Ministers must ensure that the consent order (as changed) includes a requirement that suitable space is set aside for the equipment necessary to capture and

compress all of the CO₂ that would otherwise be emitted from the plant.”

Ceisiadau am ganiatâd datblygu perthnasol: penderfynu'r parodrwydd i ddal carbon a'r gofynion sydd i'w gosod pan fo'r amodau ynglŷn â pharodrwydd i ddal carbon wedi eu bodloni

5. Ar ôl rheoliad 6 (amrywiadau i gydsyniadau adran 36) mewnosoder—

“Applications for planning permission: determination of carbon capture readiness and requirements to be imposed where CCR conditions are met

6A.—(1) The relevant planning authority must not grant a relevant planning permission unless the relevant planning authority has determined whether the CCR conditions are met in relation to the combustion plant to which the planning permission relates.

(2) The relevant planning authority's determination under paragraph (1) must be made on the basis of—

- (a) a CCR assessment of the combustion plant prepared by the person who made the application for the relevant planning permission; and
 - (b) any other available information, particularly concerning the protection of the environment and human health.
- (3) If the relevant planning authority—
- (a) determines that the CCR conditions are met in relation to a combustion plant; and
 - (b) decides to grant a relevant planning permission in respect of that plant,

the relevant planning authority must include a requirement in the relevant planning permission that suitable space is set aside for the equipment necessary to capture and compress all of the CO₂ that would otherwise be emitted from the plant.

(4) In this regulation, in the case of a planning permission for an extension to a combustion plant which will have the effect of increasing the rated electrical output of the plant to between 300 and 350 megawatts, references to a “combustion plant” are references to that plant as extended.”

Julie James

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
18 Chwefror 2019

Explanatory Memorandum to the Carbon Capture Readiness (Electricity Generating Stations) (Amendment) (Wales) Regulations 2019:

This Explanatory Memorandum has been prepared by Planning Directorate and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Carbon Capture Readiness (Electricity Generating Stations) (Amendment) (Wales) Regulations 2019.

Julie James

Minster for Housing and Local Government

20 February 2019

PART 1

1. Description

- 1.1 The Carbon Capture Readiness (Electricity Generating Stations) (Amendment) (Wales) Regulations 2019 amend the Carbon Capture Readiness (Electricity Generating Stations) Regulations 2013 (“the 2013 Regulations”) as a result of the devolution, by the Wales Act 2017, of energy consenting functions in relation to electricity generating stations in Wales which have or will have a capacity not exceeding 350MW.
- 1.2 The 2013 Regulations implemented Article 36 of Directive 2010/75/EU of the European Parliament and of the Council on industrial emissions (integrated pollution prevention and control) (Recast) (“the 2010 Directive”).

2. Matters of special interest to the Constitutional and legislative Affairs Committee

- 2.1 These Regulations are made under section 2(2) of the European Communities Act 1972. There is a choice of procedure in relation to instruments made under section 2(2) of that Act. The negative procedure will be used in this case as the discretion of the Welsh Ministers is limited over the content of the instrument as it is giving effect to EU provisions.

3. Legislative Background

- 3.1 These Regulations are made in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972 (“the 1972 Act”) and section 58B of the Government of Wales Act 2006 (“the 2006 Act”).
- 3.2 Section 58B of the 2006 Act was inserted by section 20(1) of the 2017 Act. Section 58B allows the Welsh Ministers to make secondary legislation using powers in section 2(2) of the 1972 Act as if they were a Minister of the Crown or government department designated by Order in Council under that provision, provided such legislation is within the legislative competence of the National Assembly for Wales. The 2017 Act devolves to the Welsh Ministers and the National Assembly for Wales responsibility for energy consenting up to 350MW.

4. Purpose and Effect

- 4.1 These Regulations ensure the continued transposition of Article 36 of the 2010 Directive.

- 4.2 The aim of Article 36 is to ensure potential for future carbon capture and storage (“CCS”) is assessed when developers apply for consent to construct plants with a rated electrical output of 300MW or more.
- 4.3 A number of assessments need to be carried out relating to the technical and economic feasibility of capturing, transporting and storing potential carbon dioxide emissions from an applicable plant. These assessments are designed to determine whether it is reasonable to expect that the proposed power station could be fitted with CCS technology in the future. If an assessment demonstrates that fitting of CCS technology is feasible then Article 36 requires space to be set aside to accommodate retrofitting of such equipment, thus making the proposed plan “carbon capture ready”.
- 4.4 The 2013 Regulations transposed Article 36 of the 2010 Directive. The 2013 Regulations require that before making any development consent order or granting consent under section 36 of the Electricity Act 1989 (“1989 Act”) for the construction of combustion plants with rated electrical output of 300 megawatts or more (and for extensions to combustion plants which will have the effect of increasing the rated electrical output of the plant to 300 megawatts or more), the Secretary of State or the Scottish Ministers (as applicable) must determine whether certain conditions are met relating to the feasibility of CCS. If the conditions are met the order or consent must include requirements or conditions for suitable space to be set aside for equipment necessary to capture and compress all carbon dioxide that would otherwise be emitted from the plant.
- 4.5 Similar provision is made in the case of applications for changes to development consent orders or variations of section 36 consents where the change or variation would enable a combustion plant to have a rated electrical output of 300 megawatts or more, or in the case of a plant with an existing rated electrical output of 300 megawatts or more would enable an increase in the rated electrical output of that plant.
- 4.6 These Regulations amend the 2013 Regulations as a result of the devolution of energy consenting functions by the Wales Act 2017 in relation to electricity generating stations in Wales which have or will have a capacity not exceeding 350MW.
- 4.7 The effect of these Regulations is that before granting a planning permission for the construction of combustion plants with rated electrical output of between 300 and 350 megawatts (and for extensions or alterations to combustion plants which will have the effect of increasing the rated electrical to between 300 and 350 megawatts) the Welsh Ministers or local planning authority (as applicable) must determine whether certain conditions are met

relating to the feasibility of CCS. If the conditions are met the order or consent must include requirements or conditions for suitable space to be set aside for equipment necessary to capture and compress all carbon dioxide that would otherwise be emitted from the plant. Similar provision is made where the Welsh Ministers are considering a change to an existing development consent order which would enable a combustion plant to have a rated electrical output of between 300 and 350 megawatts, or in the case of a plant with an existing rated electrical output of 300 megawatts or more would enable an increase in the rated electrical output of that plant to a maximum of 350 megawatts.

5. Consultation

5.1 The Welsh Government undertook a 12 week consultation from 30 April to 23 July 2018 on changes to the consenting of infrastructure in Wales. The consultation was drawn to the attention of a wide range of stakeholders including LPAs, generating station operators and their representatives, businesses, planning consultants, interest groups and other public sector agencies. A total of 47 responses were received.

5.2 Part 1 of the consultation related to the arrangements for on and offshore generating stations in the short-term and proposed a 'status quo', where possible. The overall consensus of respondents was the proposed changes were proportionate and appropriate in the short-term.

5.3 A summary of the consultation responses is available from the Welsh Government at:

<https://beta.gov.wales/changes-approval-infrastructure-development>.

6. Regulatory Impact Assessment

6.1 The requirement for a Regulatory Impact Assessment ("RIA") has been assessed against the RIA code for subordinate legislation. In this instance, an RIA was not considered necessary.

6.2 These Regulations are made as a consequence of energy consenting functions by the Wales Act 2017 in relation to electricity generating stations in Wales which have or will have a capacity not exceeding 350MW. The discretion of the Welsh Ministers in relation to the content of the instrument is limited as it is giving effect to the 2010 Directive.

- 6.3 The Wales Act 2017 was accompanied by an RIA which assessed the costs and benefits of the devolution of energy consenting functions to the Welsh Ministers. The RIA can be found here:

https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160611073307/https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/527740/Wales_Bill_impact_assessment.pdf .

Eitem 5.3

SL(5)336 – RHEOLIADAU'R POLISI AMAETHYDDOL CYFFREDIN (DIWYGIADAU AMRYWIOL) (CYMRU) (YMADAEL Â'R UE) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau drafft hyn i'w gwneud o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi. Maent yn ceisio mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill, sy'n deillio o ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Maent yn diwygio pedwar darn o is-ddeddfwriaeth Cymru ym maes amaethyddiaeth: Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006; Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014; Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014; a Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015. Mae'r rhain i gyd yn gyfraith yr UE a ddargedwir yn unol â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Mae'r darpariaethau yn rhai mân a thechnegol ac nid ydynt yn newid yr effaith a gaiff yr is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio ar ddinasyddion. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn gywir wrth nodi "the current CAP arrangements will continue unchanged" yn sgil y Rheoliadau hyn, gydag un eithriad bach yn ymwneud â rheoliad 4, yr ymdrinnir ag ef isod.

Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Rheol Sefydlog 21.3 – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae Rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014 (OS 2014/3222 (C. 327)) mewn amryw ffyrdd.

Yr unig un sy'n ymddangos i achosi newid o'r sefyllfa bresennol yw rheoliad 4(2), sy'n dileu cyfeiriadau at y "corff cydgysylltu". Mae deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd (yn benodol, Rheoliad (UE) rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin) yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau sy'n penodi mwy nag un asiantaeth dalu sy'n gwneud taliadau PAC hefyd ddynodi corff i gydgysylltu rhwng yr asiantaethau hynny a gweithredu fel yr unig bwynt cyswllt â Chomisiwn yr UE. Mae gan y DU asiantaethau talu ar wahân ar gyfer pob un o'i gwledydd cyfansoddol, ac uned yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y DU (DEFRA) sy'n gweithredu fel corff cydgysylltu. Nid yw'r uned yn berson cyfreithiol ar wahân i DEFRA.



Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliad 4(2) yn awgrymu na fydd yr uned hon yn bodoli mwyach, neu na fydd yn cyflawni ei holl swyddogaethau cyfredol ar ôl Brexit. Swyddogaethau yn ymdrin â'r UE yw'r rhan fwyaf o'r rhain, felly ni fyddant bellach yn berthnasol wedi i'r DU ymadael â'r UE. Rydym yn cael ar ddeall gan Lywodraeth Cymru y bydd unrhyw swyddogaethau sy'n weddill ar ôl Brexit yn cael eu cyflawni ar y cyd gan Weinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban, yr adran berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, a'r Ysgrifennydd Gwladol (yn achos Lloegr). Byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn nodi rhagor o wybodaeth am hyn er budd y Cynulliad a'r cyhoedd. Nid yw'r Nodyn Esboniadol na'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau drafft yn ymdrin â'r mater hwn.

Mae Rheoliad 5 yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015 (OS 2015/1252 (C. 84)). Mae'r rhaglith i Reoliadau 2015 yn nodi bod pob cyfeiriad yn yr OS at offerynnau Ewropeaidd i'w ddehongli fel cyfeiriad at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd (h.y. fel y'u diwygir gan gyrff yr UE sydd â'r pŵer i wneud yr offerynnau UE hynny). Mewn termau technegol, mae'r cyfeiriadau yn rhai newidiadwy. Cyfeiriwn at hyn fel "UE-newidiadwy".

O dan adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), a pharagraff 1 o Atodlen 8 iddi, ni ddylid darllen cyfeiriadau newidiadwy cyfredol mewn deddfwriaeth ddomestig (gan gynnwys deddfwriaeth Cymru) at y rhan fwyaf o reoliadau'r UE yn y ffordd hon bellach. Yn lle hynny, maent i'w darllen fel cyfeiriadau at reoliadau'r UE fel yr oeddent yn gymwys yng nghyfraith yr UE yn union cyn y diwrnod ymadael (sy'n cael ei ddiffinio yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ar hyn o bryd fel 11pm ar 29 Mawrth 2019), ond bydd cyfeiriadau atynt hefyd yn codi unrhyw ddiwygiadau a wneir iddynt gan **gyfraith ddomestig** o bryd i'w gilydd. Felly, byddant yn parhau i fod yn newidiadwy, ond ni fyddant yn "UE-newidiadwy"; byddant yn awtomatig yn cynnwys diwygiadau a wneir gan gyfraith ddomestig yn y dyfodol, ond nid newidiadau a wneir gan gyfraith yr UE yn y dyfodol.

Gall y ddarpariaeth fod cyfeiriadau o'r fath i'w darllen fel eu bod yn cynnwys diwygiadau a wneir gan gyfraith ddomestig o bryd i'w gilydd gael ei threchgu gan fwriad i'r gwrthwyneb.

Mae paragraffau (3) a (4) o reoliad 5 yn diwygio, ym mhob achos, gyfeiriad penodol at offeryn yr UE er mwyn dileu ei statws "UE-newidiadwy". Yn lle hynny, mae'r cyfeiriadau hynny i'w darllen fel cyfeiriadau at offeryn yr UE dan sylw fel yr oeddent yn gymwys yn union cyn y diwrnod ymadael. Ymddengys i ni fod hyn yn unioni'r dehongliad o'r darpariaethau perthnasol sy'n deillio o'r UE mewn pryd, ac na fyddant yn newidiadwy yn ddomestig ychwaith.

Mae Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015 yn cynnwys cyfeiriadau eraill at offerynnau'r UE na chânt eu diwygio yn y modd hwn. Felly, bydd y cyfeiriadau hynny yn cael eu trosi, gan Atodlen 8 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), o fod yn gyfeiriadau "UE-newidiadwy" i fod yn gyfeiriadau domestig a byddant yn awtomatig yn codi addasiadau a wneir i'r offerynnau hynny gan gyfraith ddomestig wedi i'r DU ymadael â'r UE.

Mae Llywodraeth Cymru wedi esbonio i ni ei rhesymau dros wneud darpariaethau penodol (a ddisgrifir uchod) yn annewidiadwy. Yr esboniad yw mai dim ond yn 2015 yr oedd rhai taliadau ar gael. Felly, mae angen pennu'r ffordd y cafodd y taliadau eu cymhwyso ar bwynt penodol mewn amser. Rydym yn ddiolchgar am yr esboniad hwn, ond rydym yn gwahodd Llywodraeth Cymru i esbonio ei rhesymeg yn llawn ac yn gyhoeddus. Mae'n wleidyddol ac yn gyfreithiol bwysig, ac o fudd i'r Cynulliad, fod y rhesymeg yn dryloyw.



Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

- 1 Mae'r Rheoliadau'n dangos pa mor anodd yw hi i'r corff craffu a'r rheini y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt ddeall union effaith yr offerynnau statudol sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE ym maes y Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- 2 Ymhlith nifer o rwystrau rhag deall y sefyllfa, gan gynnwys drafftio cyfeiriol, un enghraifft benodol a welir yn y Rheoliadau hyn yw'r anhawster eithriadol o ran deall yn union pa fersiwn o offerynnau'r UE sydd mewn grym ar unrhyw adeg benodol fel rhan o gyfraith ddomestig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).
- 3 Mae'r darpariaethau deongliadol sydd eisoes yn gymhleth yn adrannau 3 a 6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), ac Atodlen 8 iddi, ar fin cael Rheoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau a Diddymiadau a Dirymiadau Canlyniadol) 2019 wedi'u hychwanegu atynt. Mae'r rhain yn cael eu drafftio ar hyn o bryd, ac maent yn ymdrin â chyfeiriadau annewidiadwy cyn-Brexit at ddeddfwriaeth yr UE.
- 4 Mae'r cymhlethdod hwn yn deillio o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Fodd bynnag, rydym yn credu bod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i geisio esbonio, yn well ac yn fwy llawn, i'r Cynulliad ac i ddinasyddion sut mae pob darn o ddeddfwriaeth Cymru ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn cyd-fynd â'r darlun cyfan o ddeddfwriaeth y DU a'r UE – cyfredol ac arfaethedig – ar y pwnc penodol. Ymddengys mai'r lle priodol ar gyfer hyn fyddai'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag offerynnau statudol.
- 5 Fodd bynnag, pryder ychwanegol yw nad yw defnyddwyr terfynol deddfwriaeth yn ymwybodol o fodolaeth Memoranda Esboniadol neu eu bod yn methu cael gafael arnynt yn hawdd, ac rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gellid gwella'r sefyllfa hon er mwyn ei gwneud yn haws i ddinasyddion Cymru ddeall ystyr deddfwriaeth.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

5 Mawrth 2019



Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol
Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol)
(Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn gwneud diwygiadau amrywiol i is-ddeddfwriaeth ynghylch y polisi amaethyddol cyffredin.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol
Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol)
(Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol â pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006

2. Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006(1), ac ym mhennawd yr Atodlen iddynt, yn lle “deddfwriaeth yr UE”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “deddfwriaeth yr UE a ddargedwir”.

Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014

3.—(1) Mae Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn y diffiniad o “gweithrediad a gymeradwywyd” (“*approved operation*”), ar y diwedd, mewnosoder “(gweler paragraff (3))”;

(ii) yn y diffiniad o “person awdurdodedig” (“*authorised person*”), hepgorer y geiriau o “, ac mae’n cynnwys” hyd at “person awdurdodedig hwnnw”;

(iii) hepgorer y diffiniad o “y Comisiwn” (“*the Commission*”);

(iv) hepgorer y diffiniad o “cymorth yr UE” (“*EU assistance*”);

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Er mwyn osgoi amheuaeth, mae “gweithrediad a gymeradwywyd” yn cynnwys gweithrediad a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru i gael cymorth ariannol o dan reoliad 4 cyn y diwrnod ymadael.”

(3) Yn rheoliad 4(2), yn lle “yr UE” rhodder “ariannol”.

(4) Yn rheoliad 7(2)(d), yn lle “yr UE” rhodder “ariannol”.

(5) Yn rheoliad 10—

(a) hepgorer paragraff (1)(j)(i);

(b) hepgorer paragraff (3).

(1) O.S. 2006/3342 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1807 (Cy. 175); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(2) O.S. 2014/3222 (Cy. 327).

**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
(System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi
a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014**

4.—(1) Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5—

- (a) ym mharagraff (2)(b), hepgorer “neu'r corff cydgyssylltu”;
- (b) hepgorer paragraff (3).

(3) Yn lle rheoliad 7(7) rhodder—

“(7) Caiff person awdurdodedig sy'n mynd i mewn ar unrhyw dir neu i unrhyw fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn fynd â pha bynnag bersonau eraill gydag ef a ystyrir gan y person awdurdodedig yn angenrheidiol at unrhyw ddiben a grybwyllir ym mharagraff (1).”

(4) Yn lle rheoliad 8(3) rhodder—

“(3) Mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â pherson y cyfeirir ato yn rheoliad 7(7) pan fo'r person hwnnw'n gweithredu o dan gyfarwyddyd person awdurdodedig, fel pe bai'r person hwnnw yn berson awdurdodedig.”

**Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a
Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol
Cyffredin (Cymru) 2015**

5.—(1) Mae Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

- (a) hepgorer “a (2)”;
- (b) yn lle “Erthygl 10(1)(b)” rhodder “Erthygl 10(1)”.

(3) Yn rheoliad 11(1) a (2), ar ôl “Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig” mewnosoder “fel yr oedd yn gymwys yn union cyn y diwrnod ymadael”.

(4) Yn rheoliad 18(1), ar ôl “Rheoliad Taliadau Uniongyrchol” mewnosoder “fel yr oedd yn gymwys yn union cyn y diwrnod ymadael”.

Lesley Griffiths

(1) O.S. 2014/3223 (Cy. 328), y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(2) O.S. 2015/1252 (Cy. 84), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/217 (Cy. 86).

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

Explanatory Memorandum to Common Agricultural Policy (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019

This Explanatory Memorandum has been prepared by Rural Payments Wales Common Agricultural Policy legislation Team within the Economy, Skills and Natural Resources Department and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

Minister/Deputy Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Common Agricultural Policy (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019.

I have made the statements required by the European Union (Withdrawal) Act 2018. These statements can be found in Part 2 of the Annex to this Memorandum.

Lesley Griffiths
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs
20 February 2019

PART 1

1. Description

- 1.1 The Common Agriculture Policy (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019 ('this Instrument') correct deficiencies in domestic legislation which implements the European Union Common Agriculture Policy continuing to provide Direct Payments for farmers and land managers and Wales' Rural Development Programme.
- 1.2 The Regulations come into force on "exit day", which section 20(1) of the European Union (Withdrawal) Act 2018 ('the 2018 Act') defines as 29 March 2019 at 11.00pm.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

- 2.1 This Instrument is being made using the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to the 2018 Act

This Instrument is subject to the affirmative procedure in accordance with paragraph 1(9) of Schedule 7 to the 2018 Act.

3. Legislative background

- 3.1 This Instrument is being made using the power in Part 1 of Schedule 2 to the 2018 Act in order to address failures of retained EU law to operate effectively, or other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

This Instrument is also made under paragraph 21 of Schedule 7 to the 2018 Act.

In accordance with the requirements of the 2018 Act the Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, has made the relevant statements as detailed in Part 2 of the Annex to this Explanatory Memorandum.

4. Purpose and intended effect of the legislation

What did any relevant EU law do before exit day?

The domestic legislation is related to the implementation and administration of CAP and farming support in Wales. Its primary aim is to deliver support to the rural economy in Wales through CAP

A summary of the domestic Regulations subject to amendment is set out in the following paragraphs.

The Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2006

The Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2006 allow the Welsh Ministers to establish appeals procedures for farmers and foresters who dispute decisions taken by it in connection with the funding of elements of CAP and schemes relating to it.

The Rural Development Programmes (Wales) Regulations 2014 (“RD Regulations”)

The RD Regulations apply to the Rural Development Programmes established under Regulation (EU) No 1303/2013 of the European Parliament and of the Council of 17 December 2013 and Regulation (EU) No 1305/2013 of the European Parliament and of the Council of 17 December 2013. In Wales, these programmes are administered by the Welsh Ministers.

The RD Regulations supplement and provide a domestic framework for the operation of the following EU legislation in Wales:

- Regulation (EU) No 1303/2013 of the European Parliament and of the Council of 17 December 2013 laying down common provisions on the European Regional Development Fund, the European Social Fund, the Cohesion Fund, the European Agricultural Fund for Rural Development and the European Maritime and Fisheries Fund and laying down general provisions on the European Regional Development Fund, the European Social Fund, the Cohesion Fund and the European Maritime and Fisheries Fund and repealing Council Regulation (EC) No 1083/2006.
- Regulation (EU) No 1305/2013 of the European Parliament and of the Council of 17 December 2013 on support for rural development by the European Agricultural Fund for Rural Development (EAFRD) and repealing Council Regulation (EC) No 1698/2005.
- Regulation (EU) No 1306/2013 of the European Parliament and of the Council of 17 December 2013 on the financing, management and monitoring of the common agricultural policy and repealing Council Regulations (EEC) No 352/78, (EC) No 165/94, (EC) No 2799/98, (EC) No 814/2000, (EC) No 1290/2005 and (EC) No 485/2008.
- Commission Delegated Regulation (EU) No 640/2014 of 11 March 2014 supplementing Regulation (EU) No 1306/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to the integrated administration and control system and conditions for refusal or withdrawal of payments and administrative penalties applicable to direct payments, rural development support and cross compliance.
- Commission Delegated Regulation (EU) No 807/2014 of 11 March 2014 supplementing Regulation (EU) No 1305/2013 of the European Parliament and of the Council on support for rural development by the

European Agricultural Fund for Rural Development (EAFRD) and introducing transitional provisions.

- Commission Implementing Regulation (EU) No 808/2014 of 17 July 2014 laying down rules for the application of Regulation (EU) No 1305/2013 of the European Parliament and of the Council on support for rural development by the European Agricultural Fund for Rural Development (EAFRD).
- Commission Implementing Regulation (EU) No 809/2014 of 17 July 2014 laying down rules for the application of Regulation (EU) No 1306/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to the integrated administration and control system, rural development measures and cross compliance.

The RD Regulations provide the Welsh Ministers with the power to approve operations for the receipt of financial assistance and to pay financial assistance from the European Agricultural Fund for Rural Development. An “operation” is a project, contract, action or group of projects selected by the managing authorities of the programmes concerned, or under their responsibility, that contributes to the objectives of a priority or priorities. The RD Regulations also set out the circumstances in which approval of an operation may be revoked and financial assistance paid to a beneficiary, in respect of that operation, may be withheld or recovered.

The Common Agricultural Policy (Integrated Administration and Control System and Enforcement and Cross Compliance) (Wales) Regulations 2014 (“IACS Regulations”)

The IACS Regulations make provision in relation to Wales for the implementation of the following EU legislation relating to the administration of the Common Agricultural Policy:

- Regulation (EU) No 1307/2013 of the European Parliament and of the Council establishing rules for direct payments to farmers under support schemes within the framework of the common agricultural policy;
- Commission Delegated Regulation (EU) No 639/2014 supplementing the Direct Payments Regulation;
- Commission Implementing Regulation (EU) No 641/2014 laying down rules for the application of the Direct Payments Regulation;
- Commission Delegated Regulation (EU) No 640/2014 supplementing Regulation (EU) No 1306/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to the integrated administration and control system and conditions for refusal or withdrawal of payments and administrative penalties applicable to direct payments, rural development support and cross compliance;

- Commission Implementing Regulation (EU) No 908/2014 laying down rules for the application of Regulation (EU) No 1306/2013 of the European Parliament and of the Council on the financing, management and monitoring of the common agricultural policy;
- Commission Implementing Regulation (EU) No 809/2014 laying down rules for the application of Regulation (EU) No 1306/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to the integrated administration and control system, rural development measures and cross compliance;
- Regulation (EU) No 1306/2013 of the European Parliament and of the Council on the financing, management and monitoring of the common agricultural policy;
- Regulation (EU) No 1305/2013 of the European Parliament and of the Council on support for rural development by the European Agricultural Fund for Rural Development;
- Commission Delegated Regulation (EU) No 807/2014 supplementing the Rural Development Regulation; and
- Commission Implementing Regulation (EU) No 808/2014 laying down rules for the application of the Rural Development Regulation.

Part 2 sets out provisions on control and enforcement in relation to payments granted directly to farmers under the Direct Payments Regulation (“direct payments”) and rural development payments under the Rural Development Regulation (“RD payments”).

Part 3 sets out further requirements on beneficiaries of direct payments and certain Rural Development payments relating to the maintenance of standards for good agricultural and environmental conditions.

Part 4 makes provision for revocations and savings.

The Common Agricultural Policy Basic Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2015 (“BPS Regulations”)

The BPS Regulations make provision in Wales for the administration of the following EU Regulations:

- Regulation (EU) No 1307/2013 of the European Parliament and of the Council establishing rules for direct payments to farmers under support schemes within the framework of the common agricultural policy;
- Commission Delegated Regulation (EU) No 639/2014 supplementing the Direct Payments Regulation;

- Commission Implementing Regulation (EU) No 641/2014 laying down rules for the application of the Direct Payments Regulation; and
- Commission Implementing Regulation (EU) No 809/2014 laying down rules for the application of Regulation (EU) No 1306/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to the integrated administration and control system, rural development measures and cross compliance.

The BPS Regulations make provision in relation to the administration of direct payments to farmers under CAP support schemes. The Regulations set out a number of rules, including the minimum eligible area of a holding in respect of which direct payments may be granted, and the activities a farmer must carry out in order to maintain an agricultural area in a state suitable for grazing or cultivation.

The BPS Regulations also provide the basis on which an increase in direct payments to qualifying farmers aged 40 or less must be calculated (the young farmer schemes)

Why is it being changed?

- 4.5 After EU-Exit, without amendment certain provisions will be inoperable and, as a result, existing law will either be unclear or will not function effectively. This Instrument therefore uses powers in the 2018 Act to make predominantly technical changes to the above legislation to ensure that it remains coherent and continues to function correctly after the UK has left the EU. This will provide clarity to stakeholders.

What will it now do?

- 4.6 This Instrument will ensure the Welsh regulations relating to the administration and implementation of CAP in Wales will continue to be operable after the UK leaves the EU. The Instrument does not make any change to the way the Welsh regulations operate.

5. Consultation

As there is no policy change, no public consultation was undertaken. The purpose of this Instrument is to enable the current legislative and policy framework to remain operable after the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

- 6.1 An impact assessment has not been prepared for this instrument because there is no impact anticipated for business, charities, voluntary bodies or the public sector. The current CAP arrangements will continue unchanged.

**(ANNEX TO BE INCLUDED IF THE SI IS MADE
UNDER THE EUROPEAN UNION (WITHDRAWAL)
ACT 2018)**

**Annex [x]
Statements under the European Union
(Withdrawal) Act 2018**

Part 1

Table of Statements under the 2018 Act

This table sets out the statements that may be required of the Welsh Ministers under the 2018 Act. The table also sets out those statements that may be required of Ministers of the Crown under the 2018 Act, which the Welsh Ministers have committed to also provide when required. The required statements can be found in Part 2 of this annex.

Statement	Where the requirement sits	To whom it applies	What it requires
Sifting	Paragraphs 3(7) and 4(3), Schedule 7 <i>Paragraph 3(7) (anticipated to be a requirement on Welsh Ministers in Standing Orders)</i>	The Welsh Ministers exercising powers in Part 1 of Schedule 2 to make a Negative SI Paragraph 3(7) applies to Ministers of the Crown, but Welsh Ministers have committed to make the same statement	A statement to explain why the instrument should be subject to the negative procedure and, if applicable, why they disagree with the recommendation of the CLA Committee (as sifting committee)
Appropriate-ness	Sub-paragraph (2) of paragraph 28, Schedule 7	Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2	A statement that the SI does no more than is appropriate.
Good Reasons	Sub-paragraph (3) of paragraph 28,	Applies to Ministers of the Crown exercising	A statement to explain the good reasons for making the

	Schedule 7	powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2	instrument and that what is being done is a reasonable course of action.
Equalities	Sub-paragraphs (4) and (5) of paragraph 28, Schedule 7	Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2	<p>A statement to explain what, if any, amendment, repeals or revocations are being made to the Equalities Acts 2006 and 2010 and legislation made under them.</p> <p>A statement that the Minister has had due regard to the need to eliminate discrimination and other conduct prohibited under the Equality Act 2010.</p>
Explanations	Sub-paragraph (6) of paragraph 28, Schedule 7	Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2	A statement to explain the instrument, identify the relevant law before exit day, explain the instrument's effect on retained EU law and give information about the purpose of the instrument, e.g. whether minor or technical changes only are intended to the EU retained law.
Criminal offences	Sub-paragraphs (3) and (7) of paragraph 28, Schedule 7	Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2. Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2	A statement setting out the 'good reasons' for creating a criminal offence, and the penalty attached.
Sub-delegation	Paragraph 30, Schedule 7	Applies to Ministers of the Crown exercising powers in sections 18(1), 9 and paragraph 1 of	A statement to explain why it is appropriate to create such a sub-delegated power.

		<p>Schedule 4 to create a legislative power exercisable not by a Minister of the Crown or a Devolved Authority.</p> <p>Welsh Ministers have committed to make the same statement when exercising powers in Schedule 2 or paragraph 1 of Schedule 4 to create a legislative power exercisable not by a Minister of the Crown or a Devolved Authority</p>	
Urgency	Sub-paragraph (2) and (8) of paragraph 7, Schedule 7	Welsh Ministers exercising powers in Part 1 of Schedule 2 but using the urgent procedure in paragraph 7 of Schedule 7	A statement that the Welsh Ministers are of the opinion that it is necessary to make the SI using the urgent procedure and the reasons for that opinion.

Part 2

Statements required when using enabling powers under the European Union (Withdrawal) 2018 Act

1. Sifting statement(s)

Not applicable.

2. Appropriateness statement

The Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, Lesley Griffiths has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

“In my view the Common Agriculture Policy (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019 do no more than is appropriate”. This is the case because all the changes being made are solely in order to address provisions which will be inoperable as a result of the UK withdrawing from the EU. There is no change to policy. This is in line with government policy.

3. Good reasons

The Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, Lesley Griffiths has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

“In my view there are good reasons for the provisions in this draft instrument, and I have concluded they are a reasonable course of action”. These are that failure to make this legislation would result in Welsh legislation relating to the administration and implementation of CAP failing to operate effectively after the UK leaves the EU.

4. Equalities

4.1 The Minister for Environment, Energy and Rural Affairs has made the following statement(s):

“This Instrument does not amend, repeal or revoke a provision or provisions in the Equality Act 2006 or the Equality Act 2010 or subordinate legislation made under those Acts.

- 4.2 The Minister for Environment, Energy and Rural Affairs has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

“In relation to the draft instrument, I, Lesley Griffiths, the Minister for Environment, Energy and Rural Affairs, have had due regard to the need to eliminate discrimination, harassment, victimisation and any other conduct that is prohibited by or under the Equality Act 2010”.

5. Explanations

The explanations statement has been made in paragraph 4 (Purpose & intended effect of the legislation) of the main body of this explanatory memorandum.

6. Criminal offences

Not applicable/required.

7. Legislative sub-delegation

7.1 Not applicable/required,

8. Urgency

8.1 Not applicable/required.

Eitem 5.4

SL(5)337 – Rheoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau drafft hyn o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (**Deddf 2018**), a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi. Maent yn ceisio mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill, sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Maent yn diwygio pedwar darn o is-ddeddfwriaeth ym maes iechyd a lles anifeiliaid:

- Rheoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2004;
- Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007;
- a Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014;

mae'r rhain yn gyfraith yr UE a ddargedwir yn unol â Deddf 2018.

Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn rhai mân a thechnegol ac nid ydynt yn newid effaith yr is-ddeddfwriaeth a ddiwygir. Fodd bynnag, mae rheoliadau 5(4) a 5(5) yn gwneud diwygiadau mwy sylweddol. Ymdrinnir â'r rhain isod.

Gweithdrefn

Cadarnhaol (newidiwyd o'r negyddol arfaethedig ar argymhelliad y Pwyllgor, ar ôl gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.3B).

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Rydym o'r farn nad yw'r ffordd y mae Memorandwm Esboniadol yn egluro pam mae rheoliad 2 yn cyfeirio at Reoliadau'r UE yn gwbl ddefnyddiol, i'r Cynulliad nac i ddefnyddiwr y ddeddfwriaeth.

Mae paragraff 4.6 (yr ail is-baragraff) o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y cyfeiriadau yn "references to [the EU Regulations] as they will form part of domestic law by virtue of section 3 of the 2018 Act". Yna mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi: "Such legal effect is to be provided by the



proposed "European Union (Withdrawal) Act 2018 (Consequential Modifications and Repeals and Revocations) (EU Exit) Regulations 2019, to be made by the UK Government shortly".

Rydym o'r farn bod y geiriad hwn braidd yn aneglur. Byddai'n well gennym gael gwahaniaeth cliriach rhwng:

- adran 3 o Ddeddf 2018 yn gwneud y gwaith o ddargadw Rheoliadau'r UE fel eu bod yn rhan o gyfraith ddomestig ar ddiwrnod ymadael, a
- Rheoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau a Diddymiadau a Dirymiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2019 yn gwneud y gwaith o egluro bod cyfeirio, mewn deddfwriaeth ddomestig, at Reoliad yr UE yn gyfeiriad at Reoliad yr UE a ddargedwir yn union fel y mae ar adeg ymadael (ac nid yn gyfeiriad at, er enghraifft, Reoliad yr UE fel y'i diwygir o bosibl ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd).

Mae hyn yn fater o bwysigrwydd i'r cyhoedd, gan y dylai ystyr ac effaith deddfwriaeth, gan gynnwys y ffordd y mae'n rhyngweithio â deddfwriaeth arall, fod yn dryloyw i'r rhai sy'n craffu arni, ac, yn bwysicach fyth, i'r rhai y mae'n effeithio arnynt.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Mae Rheoliad 5(4) a (5) yn dileu'r darpariaethau lle mae tystysgrif cymhwysedd a roddir i weithwyr lladd-dai gan Aelod-wladwriaethau eraill yn cael ei chydabod at ddibenion Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014. Mae hyn yn golygu i bob pwrpas y bydd yn rhaid i bobl sy'n cyflawni rhai swyddogaethau mewn lladd-dai yng Nghymru wneud cais am dystysgrif newydd a roddir gan y DU.

Mae'r trefniant lle mae tystysgrifau cymhwysedd a roddir mewn un Aelod-wladwriaeth yr UE yn cael eu cydnabod gan bob Aelod-wladwriaeth arall yn ymddangos yn drefniant cyfatebol rhwng y DU a phob Aelod-wladwriaeth arall o'r UE, neu rhwng awdurdod cyhoeddus yn y DU (yn ymarferol, yr Asiantaeth Safonau Bwyd) ac awdurdodau ym mhob Aelod-wladwriaeth arall o'r UE.

Felly, ymddengys fod rheoliad 5(4) a (5) yn dileu trefniant cyfatebol rhwng Cymru (fel rhan o'r DU) ac Aelod-wladwriaethau'r UE neu awdurdodau cyhoeddus yn y gwladwriaethau hynny. Os felly, mae hyn yn dileu trefniant cyfatebol o fath y sonnir amdano yn adran 8(2)(c) neu (e) o Ddeddf 2018, sy'n golygu nad oes gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliad 5(4) a (5)) oni bai eu bod wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol (gweler paragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf 2018).

Nid yw'r rhagarweiniad na'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn cyfeirio at ymgynghoriad o'r fath.

Er inni gael gwybod (yn anffurfiol wrth baratoi'r adroddiad hwn) fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2018 ac y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio diwygio'r Memorandwm Esboniadol i ddweud cymaint, rydym am bwysleisio pwysigrwydd arferion deddfwriaethol da.

Yn y cyd-destun hwn, credwn fod arferion deddfwriaethol da yn gofyn am i ragarweiniad i offeryn statudol gyfeirio yn benodol at gyflawni unrhyw amodau statudol (megis dyletswydd i ymgynghori) y mae'n rhaid eu cyflawni cyn y gellir gwneud yr offeryn statudol.



Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Bydd yr offerynnau statudol a ddiwygir gan y Rheoliadau drafft hyn yn golygu "cyfraith yr UE a ddargedwir" at ddibenion Deddf yr UE (Ymadael). Gall hynny fod â goblygiadau ar gyfer cymhwysedd y Cynulliad, gan y gellid atal y Cynulliad rhag addasu cyfraith yr UE a ddargedwir, drwy reoliadau Llywodraeth y DU o dan adran 12 o Ddeddf 2018 (a elwir yn rheoliadau "rhewi" yn aml).

Fodd bynnag, ni ellir "rhewi" y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth o sylwedd a wneir gan y Rheoliadau drafft hyn fel eu bod y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad, gan y gallai'r Cynulliad fod wedi gwneud y ddarpariaeth gyfatebol o dan gyfraith yr UE cyn Brexit. Un eithriad fyddai'r darpariaethau yn rheoliad 5, sy'n dileu'r ddarpariaeth ar gyfer cydnabod tystysgrifau a roddir i weithwyr lladd-dai gan Aelod-wladwriaethau eraill. Ni allai'r Cynulliad fod wedi terfynu cydnabyddiaeth o'r fath cyn Brexit, gan y byddai gwneud hynny yn mynd i groes i gyfraith yr UE. Fodd bynnag, gallai adfer y gydnabyddiaeth honno yn y dyfodol, gan y byddai gwneud hynny yn gydnaws â chyfraith yr UE cyn Brexit - hyd yn oed pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud rheoliadau rhewi i'r perwyl hwnnw.

Nodwn fod y Memorandwm Esboniadol (paragraff 7.2) yn cydnabod y bydd terfynu cydnabyddiaeth gilyddol o dystysgrifau cymhwysedd i weithwyr lladd-dai yn codi goblygiadau ymarferol ac ariannol i rai unigolion yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi eu bod ar ddeall mai pump o bobl yn unig yng Nghymru yr effeithir arnynt yn y modd hwn. Y ffaith mai ychydig iawn o bobl yr effeithir arnynt yw'r sail i benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gostau a manteision cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru egluro ar ba sail y mae'n deall mai pum person yn unig yr effeithir arnynt yn y modd hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

5 Mawrth 2019



Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid
(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2, a pharagraff 21 o Atodlen 7, i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru, ym meysydd cofrestru sefydliadau ieir dodwy, lles anifeiliaid wrth eu cludo, lles anifeiliaid a ffermir a lles anifeiliaid wrth eu cigyddu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

ANIFEILIAID, CYMRU

**Rheoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid
(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2019**

Gwnaed

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2, a pharagraff 21 o Atodlen 7, i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol â pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(1) 2018 p. 16.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Rheoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2004

2.—(1) Mae Rheoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2004(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

- (a) hepgorer y diffiniadau o “y Gyfarwyddeb” a “Cynulliad Cenedlaethol”;
- (b) yn y diffiniad o “cofrestr”, yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “Weinidogion Cymru”.

(3) Yn rheoliad 4—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “i'r Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “i Weinidogion Cymru”;
- (b) ym mharagraff (2)—
 - (i) yn lle “i'r Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “i Weinidogion Cymru”;
 - (ii) yn lle “â'r Gyfarwyddeb” rhodder “â pharagraff (3)”;
- (c) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Rhaid i'r rhif adnabod gael ei ffurfio o'r cod dull ffermio priodol a bennir yn unol â pharagraffau (5) i (7), wedi ei ddilyn gan y llythrennau “UK”, wedi eu dilyn gan rif adnabod unigryw a ddyrennir i'r sefydliad gan Weinidogion Cymru.

(4) Pan ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn briodol gwneud hynny, caniateir iddynt ychwanegu nodau pellach i'r rhif adnabod unigryw sy'n ofynnol gan baragraff (3) er mwyn adnabod heidiau unigol a gedwir gan sefydliad mewn adeiladau ar wahân.

(5) Ac eithrio pan fo paragraff (6) yn gymwys, pan ddefnyddir y dull ffermio yng ngholofn A, y

(1) O.S. 2004/1432 (Cy. 145), y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

cod dull ffermio priodol yw'r rhif cyfatebol yng ngholofn B.

<i>Colofn A</i>	<i>Colofn B</i>
Maes	1
Ysgubor	2
Cewyll	3

(6) Pan fo'r dull ffermio a ddefnyddir yn y sefydliad yn cynhyrchu wyau o dan yr amodau a nodir yn Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig, y cod dull ffermio priodol yw "0".

(7) At ddibenion paragraff (5), mae'r dull ffermio a ddefnyddir mewn sefydliad i'w bennu yn unol â Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008 sy'n gosod rheolau ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y safonau marchnata ar gyfer wyau."

(4) Yn rheoliad 6—

- (a) ym mharagraff (2), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Weinidogion Cymru", ac ym mharagraff (4), yn lle "i'r Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "i Weinidogion Cymru";
- (b) ym mharagraff (3), yn lle "mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn amdani" rhodder "mae Gweinidogion Cymru yn gofyn amdani".

(5) Yn rheoliad 7(1), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Weinidogion Cymru", ac yn rheoliad 11, yn lle "neu'r Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "neu Weinidogion Cymru".

Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007

3.—(1) Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2, hepgorer paragraff (5).

(3) Yn lle erthygl 20 rhodder—

(1) O.S. 2007/1047 (Cy. 105).

“Yr awdurdod cymwys

20. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1255/97 a Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005.”

(4) Yn erthygl 22—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “Gweinidogion Cymru”; ym mharagraff (3)(c), yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “Weinidogion Cymru”; ac ym mharagraff (5), yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “Gweinidogion Cymru”;
- (b) ym mharagraff (2)(a), yn lle “fo'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn” rhodder “fo Gweinidogion Cymru o'r farn”;
- (c) ym mharagraff (4)—
 - (i) yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol”, yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, rhodder “Weinidogion Cymru”;
 - (ii) yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu” rhodder “Gweinidogion Cymru yn penderfynu”.

(5) Yn erthygl 23—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “Weinidogion Cymru”, ac ym mharagraff (3), yn lle “i'r Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “i Weinidogion Cymru”;
- (b) ym mharagraff (2), yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “Gweinidogion Cymru”;
- (c) ym mharagraff (4)—
 - (i) yn lle “i'r Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “i Weinidogion Cymru”;
 - (ii) yn lle “o'i benderfyniad terfynol a'i resymau” rhodder “o'u penderfyniad terfynol a'u rhesymau”.

(6) Yn erthyglau 24(9) a 29(2), yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “Weinidogion Cymru”; ac yn erthyglau 26(1)(a) a 27(b), yn lle “y Cynulliad Cenedlaethol” rhodder “Gweinidogion Cymru”.

Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007

4.—(1) Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1, ym mharagraff 27(2), yn lle “mae i’r ymadrodd “triniaeth söotechnegol” yr ystyr a roddir i “zootechnical treatment” yn Erthygl 1(2)(c) o Gyfarwyddeb 96/22/EEC ar wahardd defnyddio sylweddau penodol sy’n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig a beta-agonistiaid mewn ffermio da byw.” rhodder “ystyr “triniaeth söotechnegol” (“zootechnical treatment”) yw rhoi i anifail, yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013(2), gynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol sydd ag effaith estrogenaidd, androgenig neu estagenaid ar gyfer cydamseru estrws a pharatoïr anifeiliaid sy’n rhoi a’r anifeiliaid maeth ar gyfer mewtblannu embryonau, ar ôl i’r anifail gael ei archwilio gan filfeddyg neu rywun y mae milfeddyg yn gyfrifol amdano.”

(3) Yn Atodlen 5A, ym mharagraff 2—

(a) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

“(1) Rhaid i geidwad ddal tystysgrif gydnabyddedig.

(1A) Yn y paragraff hwn, ystyr “tystysgrif gydnabyddedig” yw tystysgrif a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru sy’n tystio bod unrhyw hyfforddiant wedi ei gwblhau, neu fod profiad wedi ei fagu sy’n cyfateb i unrhyw hyfforddiant, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.”;

(b) yn is-baragraff (2), yn lle “dystysgrifau a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion is-baragraff (1)” rhodder “dystysgrifau cydnabyddedig”.

Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014

5.—(1) Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(1) O.S. 2007/3070 (Cy. 264), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/2713 (Cy. 229).

(2) O.S. 2013/2033, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(3) O.S. 2014/951 (Cy. 92).

(2) Yn rheoliad 3—

(a) ym mharagraff (1), yn y diffiniad o “Rheoliad UE”, ar y diwedd mewnosoder “fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd”;

(b) hepgorer paragraff (4).

(3) Yn rheoliad 4(2), hepgorer “, a hwy sy’n gweithredu fel yr Aelod-wladwriaeth”.

(4) Yn rheoliad 11(3), yn lle “Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Aelod-wladwriaeth arall o’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon”.

(5) Yn rheoliad 19(1), hepgorer “(gan gynnwys tystysgrif neu dystysgrif dros dro a roddwyd mewn Aelod-wladwriaeth arall)”.

(6) Yn rheoliad 35, yn lle paragraff (6) rhodder—

“(6) Caiff arolygydd fynd i mewn yng nghwmni pa bynnag bersonau eraill yr ystyria’r arolygydd yn angenrheidiol.”

(7) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 3(2), ar ôl “ag unrhyw rwymedigaeth UE” mewnosoder “a ddargedwir”.

Enw

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

Draft Regulations laid before the National Assembly for Wales under paragraph 1(9) of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018, for approval by resolution of the National Assembly for Wales.

DRAFT WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2019 No. (W.)

**EXITING THE EUROPEAN UNION,
WALES**

ANIMALS, WALES

The Animal Health and Welfare
(Miscellaneous Amendments)
(Wales) (EU Exit) Regulations 2019

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations are made in exercise of the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) in order to address failures of retained EU law to operate effectively and other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

These Regulations make amendments to subordinate legislation, which apply in relation to Wales, in the fields of the registration of laying hen establishments, animal welfare at transport, the welfare of farmed animals and animal welfare at slaughter.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

Draft Regulations laid before the National Assembly for Wales under paragraph 1(9) of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018, for approval by resolution of the National Assembly for Wales.

DRAFT WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2019 No. (W.)

**EXITING THE EUROPEAN UNION,
WALES**

ANIMALS, WALES

The Animal Health and Welfare
(Miscellaneous Amendments)
(Wales) (EU Exit) Regulations 2019

Made

*Coming into force in accordance with
regulation 1(2)*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018(1), make the following Regulations.

In accordance with paragraph 1(9) of Schedule 7 to that Act, a draft of this instrument has been laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Animal Health and Welfare (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019.

(1) 2018 c. 16.

(2) These Regulations come into force on exit day.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

The Registration of Establishments (Laying Hens) (Wales) Regulations 2004

2.—(1) The Registration of Establishments (Laying Hens) (Wales) Regulations 2004⁽¹⁾ are amended as follows.

(2) In regulation 2—

- (a) omit the definitions of “the Directive” and “the National Assembly”;
- (b) in the definition of “register”, for “National Assembly” substitute “Welsh Ministers”.

(3) In regulation 4—

- (a) in paragraph (1), for “National Assembly” substitute “Welsh Ministers”;
- (b) in paragraph (2)—
 - (i) for “National Assembly” substitute “Welsh Ministers”;
 - (ii) for “the Directive” substitute “paragraph (3)”;

(c) after paragraph (2) insert—

“(3) The distinguishing number must be composed of the appropriate farming method code determined in accordance with paragraphs (5) to (7), followed by the letters “UK”, followed by a unique identification number allocated to the establishment by the Welsh Ministers.

(4) Where it appears appropriate to the Welsh Ministers to do so, they may add further characters to the unique identification number required by paragraph (3) in order to identify single flocks kept in separate buildings of an establishment.

(5) Except where paragraph (6) applies, when the farming method in column A is used, the appropriate farming method code is the corresponding number in column B.

(1) S.I. 2004/1432 (W. 145), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

<i>Column A</i>	<i>Column B</i>
Free Range	1
Barn	2
Cages	3

(6) Where the farming method used in the establishment produces eggs under the conditions set out in Council Regulation (EC) No 834/2007 on organic production and labelling of organic products, the appropriate farming method code is “0”.

(7) For the purposes of paragraph (5), the farming method used in an establishment is to be determined in accordance with Commission Regulation (EC) No 589/2008 laying down rules for implementing Council Regulation (EC) No 1234/2007 as regards marketing standards for eggs.”

(4) In regulation 6—

- (a) in paragraphs (2) and (4), for “National Assembly” substitute “Welsh Ministers”;
- (b) in paragraph (3), for “National Assembly requires” substitute “Welsh Ministers require”.

(5) In regulations 7(1) and 11, for “National Assembly” substitute “Welsh Ministers”.

The Welfare of Animals (Transport) (Wales) Order 2007

3.—(1) The Welfare of Animals (Transport) (Wales) Order 2007(1) is amended as follows.

(2) In article 2, omit paragraph (5).

(3) For article 20 substitute—

“The competent authority

20. The Welsh Ministers are the competent authority for the purposes of Council Regulation (EC) No 1255/97 and Council Regulation (EC) No 1/2005.”

(1) S.I. 2007/1047 (W. 105).

- (4) In article 22—
- (a) in paragraphs (1), (3)(c) and (5), for “National Assembly” substitute “Welsh Ministers”;
 - (b) in paragraph (2)(a), for “National Assembly considers” substitute “Welsh Ministers consider”;
 - (c) in paragraph (4)—
 - (i) for “National Assembly”, in the first place where it occurs, substitute “Welsh Ministers”;
 - (ii) for “National Assembly decides” substitute “Welsh Ministers decide”.

- (5) In article 23—
- (a) in paragraphs (1) and (3), for “National Assembly” substitute “Welsh Ministers”;
 - (b) in paragraph (2), for “National Assembly’s” substitute “Welsh Ministers”;
 - (c) in paragraph (4)—
 - (i) for “National Assembly” substitute “Welsh Ministers”;
 - (ii) for “its”, in both places where that word occurs, substitute “their”.

(6) In articles 24(9), 26(1)(a), 27(b) and 29(2), for “National Assembly”, in each place where it occurs, substitute “Welsh Ministers”.

The Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2007

4.—(1) The Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2007⁽¹⁾ are amended as follows.

(2) In Schedule 1, in paragraph 27(2), for “has the meaning given in Article 1(2)(c) of Directive 96/22/EEC concerning the prohibition on the use in stockfarming of certain substances having a hormonal or thyrostatic action and of beta-agonists.” substitute “means the administering to an animal, in accordance with regulation 8 of the Veterinary Medicines Regulations 2013⁽²⁾, of veterinary medicinal products having an

(1) S.I. 2007/3070 (W. 264), amended by S.I. 2010/2713 (W. 229).

(2) S.I. 2013/2033, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

oestrogenic, androgenic or gestagenic action for synchronizing oestrus and preparing donors and recipients for the implantation of embryos, after examination of the animal by a veterinary surgeon or someone under the responsibility of a veterinary surgeon.”

(3) In Schedule 5A, in paragraph 2—

(a) for sub-paragraph (1) substitute—

“(1) A keeper must hold a recognised certificate.

(1A) In this paragraph, “recognised certificate” means a certificate recognised by the Welsh Ministers attesting to the completion of such training, or the acquisition of experience equivalent to such training, as the Welsh Ministers consider appropriate.”;

(b) in sub-paragraph (2), for “certificates recognised by the Welsh Ministers for the purposes of sub-paragraph (1)” substitute “recognised certificates”.

The Welfare of Animals at the Time of Killing (Wales) Regulations 2014

5.—(1) The Welfare of Animals at the Time of Killing (Wales) Regulations 2014⁽¹⁾ are amended as follows.

(2) In regulation 3—

(a) in paragraph (1), in the definition of “EU Regulation”, at the end insert “as amended from time to time”;

(b) omit paragraph (4).

(3) In regulation 4(2), omit “, and act as the member State,”.

(4) In regulation 11(3), for “England, Scotland, Northern Ireland or another member State of the European Union” substitute “England, Scotland or Northern Ireland”.

(5) In regulation 19(1), omit “(including a certificate or temporary certificate granted in another member State)”.

(6) In regulation 35, for paragraph (6) substitute—

(1) S.I. 2014/951 (W. 92).

“(6) An inspector may be accompanied by such other persons as the inspector considers necessary.”

(7) In Schedule 2, in paragraph 3(2), for “any EU obligation” substitute “any retained EU obligation”.

Name

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs,
one of the Welsh Ministers

Date

SL(5)338 – The Regulated Adoption Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019

Background and Purpose

These Regulations are made under the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (“the Act”) and set out the regulatory requirements and related provisions for providers of regulated adoption services and for those persons who are designated as the “responsible individuals” for such services.

Procedure

Affirmative.

Technical Scrutiny

Two points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

1. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation

Regulation 2(1) includes the following definition:

“approved by the service” means approved by the service as suitable to be an adoptive parent in accordance with the Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005.

The term “approved by the service” is used in several places in the Regulations, for example, paragraph 30 of Schedule 3 states:

30. Any serious complaint about a prospective adopter approved by the service where a child is placed for adoption with that prospective adopter by the service.

However, it is unclear how “the service” can approve in this context. (This also raises the question of the use of “the service” at the end of that paragraph, which also arises in several other places in the Regulations.)

Failure to notify the area authority of the circumstances in paragraph 30 of Schedule 3 is a criminal offence. We therefore emphasise the need for clarity.

2. Standing Order 21.2(v) – that for any particular reason its form or meaning needs further explanation

Regulation 7(4) deals with the issue of a “responsible individual” being unable to fulfil their duties. According to regulation 7(4)(c), where the responsible individual is unable to fulfil their duties, the service provider must ensure there are arrangements in place for the service to comply with the requirements of **Parts 3 to 10** of the Regulations.

However, Parts 11 to 15 of the Regulations impose very important requirements on responsible individuals. We therefore wonder why regulation 7(4)(c) does not require the service provider to ensure



there are arrangements in place for the service to comply with the requirements of **Parts 3 to 15** of the Regulations?

(We note that in the equivalent place in the Regulated Advocacy Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019, there is reference to Parts 3 to 15 of those Regulations.)

The same issue arises in respect of regulation 8(3) of these Regulations.

Merits Scrutiny

One point is identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

1. Standing Order 21.3(ii) – that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Assembly

The Explanatory Memorandum to these Regulations states:

Section 27(4) of the Regulation and Inspection of Social Care Act (RISCA) provides that “Before making regulations under this section the Welsh Ministers must—(a) consult any persons they think appropriate, and (b) publish a statement about the consultation.” To discharge this requirement, a summary of the responses, together with a list of respondents will be published on the Welsh Government website:

<https://beta.gov.wales/new-regulatory-framework-adoption-services>

However, that webpage does not provide a summary of responses and does not list the respondents. At the time of preparing this report, the webpage includes the original consultation documents and was last updated on 27 November 2018, i.e. the day the consultation closed.

Implications arising from exiting the European Union

No points are identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

Government Response

A government response is required.

Legal Advisers

Constitutional and Legislative Affairs Committee

5 March 2019



Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(b), (f), (g), (j) a (k) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

**Rheoliadau Gwasanaethau
Mabwysiadu Rheoleiddiedig
(Darparwyr Gwasanaethau ac
Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") ac yn nodi'r gofynion rheoleiddiol a darpariaethau cysylltiedig ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ac ar gyfer y personau hynny sydd wedi eu dynodi'n "unigolion cyfrifol" ar gyfer y gwasanaethau hynny.

Cyflwynodd y Ddeddf gysyniad newydd o "gwasanaethau rheoleiddiedig" sydd wedi ei ddiffinio yn adran 2 o'r Ddeddf honno.

Rhaid i berson sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig wneud cais i gofrestru i Weinidogion Cymru (wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol) gan bennu'r gwasanaeth rheoleiddiedig y mae'r person yn dymuno ei ddarparu.

Mae adran 2(1)(d) o'r Ddeddf yn darparu bod gwasanaeth mabwysiadu yn wasanaeth rheoleiddiedig, sydd wedi ei ddiffinio yn Atodlen 1 i'r Ddeddf honno i olygu gwasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan (a) cymdeithas fabwysiadu o fewn ystyr "adoption society" yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ("Deddf 2002") sy'n sefydliad gwirfoddol o fewn ystyr "voluntary organisation" yn y Ddeddf honno,

neu (b) asiantaeth cymorth mabwysiadu o fewn yr ystyr a roddir i “adoption support agency” gan adran 8 o’r Ddeddf honno. Cyfeirir at berson sydd wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu yn y Rheoliadau hyn fel “darparwr gwasanaeth”.

Mae adran 27 o’r Ddeddf yn darparu y caiff rheoliadau osod gofynion ar ddarparwr gwasanaeth mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig. Mae adran 28 yn darparu ymhellach y caiff rheoliadau osod gofynion ar unigolyn cyfrifol sydd wedi ei ddynodi gan ddarparwr gwasanaeth.

Mae adran 30 o’r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch darparwr gwasanaeth sydd wedi ei ddatod, ac mae adran 31 yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud ynghylch darparwr sydd wedi marw.

Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn darparu ei bod yn drosedd i ddarparwr gwasanaeth (adran 45 o’r Ddeddf) ac i unigolyn cyfrifol (adran 46) fethu â chydymffurfio â darpariaethau penodedig.

Mae Rhan 1 o’r Rheoliadau hyn yn cynnwys diffiniadau o dermau penodol sy’n cael eu defnyddio yn y Rheoliadau. Cyfeirir at wasanaeth mabwysiadu fel “gwasanaeth” ac mae “cymorth” yn cynnwys y cymorth y mae’n ofynnol i gymdeithas fabwysiadu ei ddarparu yng nghwrs gwneud trefniadau ar gyfer mabwysiadu neu ar ôl i fabwysiadu gael eu trefnu yn ogystal â’r gwasanaethau cymorth mabwysiadu a all gael eu darparu gan naill ai cymdeithas fabwysiadu neu asiantaeth cymorth mabwysiadu.

Mae Rhan 2 yn cwmpasu eithriadau. Mae’r rheoliad yn Rhan 2 wedi ei wneud o dan bwerau yn adran 2(3) o’r Ddeddf sy’n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi pethau nad ydynt, er gwaethaf Atodlen 1 i’r Ddeddf (sy’n nodi’r diffiniadau o wasanaethau rheoleiddiedig), i’w trin fel gwasanaeth rheoleiddiedig.

Mae Rhan 3 yn nodi’r gofynion cyffredinol ar y darparwr gwasanaeth o ran y ffordd y darperir y gwasanaeth, gan gynnwys gofynion mewn perthynas â’r datganiad o ddiben, y trefniadau ar gyfer monitro a gwella, y cymorth sydd i’w ddarparu i’r unigolyn cyfrifol, y camau sydd i’w cymryd i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth a’r polisïau a’r gweithdrefnau y mae rhaid iddynt fod yn eu lle.

Mae Rhan 3 hefyd yn disgrifio amryw ofynion mewn perthynas â dynodiad unigolyn cyfrifol. O dan adran 6 o’r Ddeddf, rhaid i berson sy’n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig wneud cais i gofrestru i

Weinidogion Cymru y mae person wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol ynddo.

Mae Rhan 4 yn cwmpasu'r gofynion o ran y camau sydd i'w cymryd cyn i'r darparwr gwasanaeth gytuno i ddarparu cymorth i unigolyn. Ni chaiff darparwr gwasanaeth gytuno i ddarparu cymorth oni bai ei fod yn gyntaf wedi penderfynu bod y gwasanaeth yn addas i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Mae rheoliad 12 yn nodi'r camau y mae rhaid iddynt gael eu cymryd a'r materion y mae rhaid iddynt gael eu hystyried wrth wneud y penderfyniad hwn. Pan na fo cynllun gofal a chymorth, cynllun cymorth mabwysiadu neu gynllun lleoliad yn ei le, mae'r camau sydd i'w cymryd yn cynnwys cynnal asesiad o angen yr unigolyn am gymorth.

Mae Rhan 5 yn ymdrin â'r gofynion o ran yr wybodaeth sydd i'w darparu i unigolion wrth gychwyn darparu cymorth. Mae rheoliad 13 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i'r wybodaeth hon fod ar ffurf canllaw ysgrifenedig ac yn nodi gofynion manwl am y canllaw, gan gynnwys ei gynnwys a'i fformat. Mae rhagor o fanylion am yr wybodaeth y disgwylir y byddai'r canllaw fel arfer yn ei chynnwys i'w cael yn y canllawiau a ddyroddir o dan adran 29 o'r Ddeddf.

Mae Rhan 6 yn cynnwys gofynion o ran safon y cymorth sydd i'w ddarparu. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion cyffredinol yn ogystal â gofynion mwy manwl sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth, diwallu anghenion iaith a chyfathrebu unigolion a thrin unigolion â pharch a sensitifrwydd.

Mae Rhan 7 yn cynnwys gofynion penodol mewn perthynas â sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac wedi eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol. Yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol i bolisiau a gweithdrefnau fod yn eu lle mewn perthynas â diogelu, mae'r rheoliadau yn y Rhan hon yn gosod gofynion penodol o ran y camau gweithredu sydd i'w cymryd os bydd honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth.

Mae Rhan 8 yn cynnwys gofynion o ran staffio, sy'n cynnwys gofynion cyffredinol o ran defnyddio niferoedd digonol o staff a gofynion penodol o ran addasrwydd unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r gofynion hyn yn gymwys nid yn unig i gyflogeion ond hefyd i wirfoddolwyr ac i bersonau eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r gofynion addasrwydd yn cynnwys gofyniad i wybodaeth benodol a dogfennaeth benodol fod ar gael mewn cysylltiad â phersonau sy'n gweithio yn y gwasanaeth, fel y'u nodir yn Atodlen 1.

Ymhlith y gofynion eraill a gynhwysir yn Rhan 8 mae gofynion sy'n ymwneud â chefnogi a datblygu staff, darparu gwybodaeth i staff a gweithredu gweithdrefn ddisgyblu addas. I sicrhau bod cyflogeion yn adrodd am achosion o gamdriniaeth i berson priodol, mae'r rheoliadau yn y Rhan hon yn ei gwneud yn ofynnol i weithdrefn ddisgyblu'r darparwr ddarparu y byddai methu ag adrodd ynddo'i hun yn sail dros achos disgyblu.

Mae Rhan 9 yn sicrhau bod mangreoedd sydd i'w defnyddio mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu yn ddigonol ar gyfer goruchwyllo staff a storio cofnodion yn ddiogel.

Mae Rhan 10 yn cynnwys gofynion amrywiol ar ddarparwyr gwasanaethau, gan gynnwys gofynion o ran cadw cofnodion a gwneud hysbysiadau i'r rheoleiddiwr gwasanaethau a chyrrff eraill. Mae Atodlen 2 yn nodi'r cofnodion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cadw ac mae Atodlen 3 yn nodi'r hysbysiadau penodol y mae'n ofynnol iddynt gael eu gwneud.

Mae Rhannau 11 i 15 yn cynnwys y gofynion a osodir ar unigolion cyfrifol. Mae'r rheoliadau yn y Rhannau hyn wedi eu gwneud o dan adran 28 o'r Ddeddf.

Mae Rhan 11 yn nodi gofynion ar unigolion cyfrifol sy'n ymwneud â rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae dyletswydd gyffredinol ar yr unigolyn cyfrifol i oruchwyllo'r gwaith o reoli'r gwasanaeth ac mae arno ddyletswyddau penodol i benodi person addas i reoli'r gwasanaeth. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hefyd roi trefniadau yn eu lle ar gyfer rheoli'r gwasanaeth pan yw'r rheolwr yn absennol.

Mae Rhan 12 yn cynnwys gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwyllo'n effeithiol. Drwy osod y gofynion hyn ar yr unigolyn cyfrifol, mae'r rheoliadau yn y Rhan hon yn sicrhau bod person ar lefel briodol uchel yn y sefydliad yn atebol am ansawdd a chydymffurfedd y gwasanaeth. Hefyd, mae'n ofynnol i'r unigolyn cyfrifol wneud adroddiadau i'r darparwr gwasanaeth ar ddigonolrwydd adnoddau ac ar faterion eraill. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol wneud trefniadau ar gyfer ymgysylltu ag unigolion ac eraill fel y gall eu safbwyntiau ar ansawdd y cymorth a ddarperir gael eu hystyried gan y darparwr.

Mae Rhan 13 yn nodi'r ddyletswydd ar yr unigolyn cyfrifol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd y gwasanaeth â gofynion eraill, gan gynnwys gofynion o ran hysbysu am ddigwyddiadau a chwynion a chadw cofnodion. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hefyd sicrhau bod polisiau a

gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth yn cael eu cadw'n gyfredol.

Mae Rhan 14 yn cwmpasu cyfrifoldebau'r unigolyn cyfrifol mewn perthynas â monitro ac adolygu ansawdd y gwasanaeth, ac â gwneud adroddiad i'r darparwr gwasanaeth.

Mae Rhan 15 yn cwmpasu gofynion eraill ar yr unigolyn cyfrifol, gan gynnwys gofynion i wneud hysbysiadau penodol i'r rheoleiddiwr gwasanaethau a gynhwysir yn Atodlen 4.

Mae Rhan 16 yn cwmpasu troseddau. Mae rheoliad 54 wedi ei wneud o dan y pwerau yn adran 45 o'r Ddeddf ac yn darparu bod methiant gan ddarparwr gwasanaeth i gydymffurfio â gofynion darpariaethau penodedig yn y Rheoliadau hyn yn drosedd. Yn ogystal, pan fo darparwr gwasanaeth yn methu â chydymffurfio â gofynion penodol eraill, mae rheoliad 54(3) yn darparu bod hyn hefyd yn drosedd os yw'r methiant i gydymffurfio yn arwain at wneud plentyn yn agored i niwed y gellir ei osgoi neu'n agored i risg sylweddol o niwed o'r fath neu'n agored i golli arian neu eiddo o ganlyniad i ddwyn, camddefnyddio neu gamberchnogi.

Mae Rhan 16 hefyd yn darparu bod methiant gan unigolyn cyfrifol i gydymffurfio â gofynion darpariaethau penodedig yn y Rheoliadau hyn yn drosedd. Mae'r rheoliad hwn wedi ei wneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.

Mae Rhan 17 yn pennu'r cyfrifoldebau ar y "person a benodir" os bydd y darparwr gwasanaeth yn mynd yn ansolfent. Mae Rhan 17 hefyd yn nodi'r camau i'w cymryd gan gynrychiolwyr personol yr ymadawedig os bydd darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn yn marw. Mae'n galluogi'r cynrychiolwyr personol i weithredu yn rhinwedd y darparwr ac yn addasu'r Ddeddf fel nad yw'n ofynnol, o dan yr amgylchiadau hyn, i'r cynrychiolwyr personol gofrestru fel darparwr, a gall un o'r cynrychiolwyr personol gael ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol.

Mae Rhan 18 yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru (yn lle darparwr gwasanaeth) ddynodi unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol er nad yw gofynion cymhwystra adran 21(2) o'r Ddeddf wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r unigolyn. Mae'r rheoliad hwn wedi ei wneud o dan adran 21(5) o'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau

hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

DRAFFT

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(b), (f), (g), (j) a (k) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gwasanaethau
Mabwysiadu Rheoleiddiedig
(Darparwyr Gwasanaethau ac
Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

Gwnaed

Yn dod i rym

29 Ebrill 2019

CYNNWYS

RHAN 1

Cyffredinol

1. Enwi a chychwyn
2. Dehongli

RHAN 2

Eithriadau

3. Eithriadau

RHAN 3

Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau

4. Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth
5. Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben

6. Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella
7. Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol
8. Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn
9. Gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth
10. Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau
11. Dyletswydd gonestrwydd

RHAN 4

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd cyn cytuno i ddarparu cymorth

12. Addasrwydd y gwasanaeth

RHAN 5

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran yr wybodaeth sydd i'w darparu i unigolion wrth gychwyn darparu cymorth

13. Gwybodaeth am y gwasanaeth
14. Cytundeb gwasanaeth

RHAN 6

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safonau'r cymorth sydd i'w ddarparu

15. Safonau'r cymorth - gofynion cyffredinol
16. Gwybodaeth
17. Iaith a chyfathrebu
18. Parch a sensitifrwydd

RHAN 7

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau - diogelu

19. Diogelu - gofyniad cyffredinol
20. Polisïau a gweithdrefnau diogelu
21. Dehongli Rhan 7

RHAN 8

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran staffio

22. Staffio - gofynion cyffredinol
23. Addasrwydd staff
24. Cefnogi a datblygu staff
25. Cydymffurfio â chod ymarfer
26. Gwybodaeth ar gyfer staff
27. Gweithdrefnau disgyblu

RHAN 9

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran mangreoedd

28. Gofyniad cyffredinol
29. Digonolrwydd mangreoedd

RHAN 10

Gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau

30. Cofnodion
31. Hysbysiadau
32. Gwrthdaro buddiannau
33. Polisi a gweithdrefn gwyno
34. Chwythu'r chwiban

RHAN 11

Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol

35. Goruchwyllo'r gwaith o reoli'r gwasanaeth
36. Dyletswydd i benodi rheolwr
37. Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr
38. Cyfyngiadau ar benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth
39. Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i'r darparwr gwasanaeth
40. Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i GCC a'r rheoleiddiwr gwasanaethau
41. Y trefniadau pan yw'r rheolwr yn absennol
42. Ymweliadau

RHAN 12

Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol

43. Goruchwyllo digonolrwydd adnoddau
44. Adroddiadau eraill i'r darparwr gwasanaeth
45. Ymgysylltu ag unigolion ac eraill

RHAN 13

Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd y gwasanaeth

46. Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi digwyddiadau a chwynion
47. Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion
48. Dyletswydd i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn gyfredol

RHAN 14

Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth

49. Adolygiad o ansawdd y gwasanaeth
50. Datganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau'r cymorth

RHAN 15

Gofynion eraill ar unigolion cyfrifol

51. Cymorth ar gyfer staff sy'n codi pryderon
52. Dyletswydd gonestrwydd
53. Hysbysiadau

RHAN 16

Troseddau

54. Troseddau - darparwyr gwasanaethau
55. Troseddau - unigolion cyfrifol

RHAN 17

Darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu datod etc.
neu sydd wedi marw

- 56. Penodi datodwyr etc.
- 57. Marwolaeth darparwr
gwasanaeth

RHAN 18

Rheoliadau o dan adran 21(5) o'r Ddeddf

- 58. Dynodiad unigolyn cyfrifol gan
Weinidogion Cymru

ATODLEN 1

RHAN 1 — Gwybodaeth a
dogfennaeth sydd i
fod ar gael mewn
cysylltiad â
phersonau sy'n
gweithio mewn
gwasanaethau
rheoleiddiedig

RHAN 2 — Dehongli Rhan 1

ATODLEN 2 — Y cofnodion sydd i'w
cadw

ATODLEN 3 — Hysbysiadau gan y
darparwr
gwasanaeth

RHAN 1 — Hysbysiadau i'r
rheoleiddiwr
gwasanaethau

RHAN 2 — Hysbysiad i'r Bwrdd
Iechyd Lleol/grŵp
comisiynu clinigol a
Bwrdd Comisiynu'r
Gwasanaeth Iechyd
Gwladol gan
ddarparwr
cymdeithas
fabwysiadu

- RHAN 3 — Hysbysiad i'r Bwrdd
Iechyd Lleol/grŵp
comisiynu clinigol a
Bwrdd Comisiynu'r
Gwasanaeth Iechyd
Gwladol gan
ddarparwr
asiantaeth cymorth
mabwysiadu neu
ddarparwr
cymdeithas
fabwysiadu sy'n
darparu
gwasanaethau
cymorth
mabwysiadu
- RHAN 4 — Hysbysiad i'r
asiantaeth leoli
- RHAN 5 — Hysbysiadau i'r
awdurdod ardal
- RHAN 6 — Hysbysiadau i'r
awdurdod lleoli gan
ddarparwr
cymdeithas
fabwysiadu
- RHAN 7 — Hysbysiadau i'r
awdurdod lleoli gan
ddarparwr
asiantaeth cymorth
mabwysiadu neu
gymdeithas
fabwysiadu sy'n
darparu
gwasanaethau
cymorth
mabwysiadu
- RHAN 8 — Hysbysiad i'r
awdurdod
perthnasol
- RHAN 9 — Hysbysiad i'r heddlu
- ATODLEN 4 — Hysbysiadau gan yr
unigolyn cyfrifol

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2(3), 21(5), 27, 28, 30, 31, 45, 46 a 187(1) o Ddeddf

Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(1) (“y Ddeddf”).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â’r personau hynny y maent yn meddwl eu bod yn briodol, fel sy’n ofynnol gan adrannau 27(4)(a) ac 28(4) o’r Ddeddf, ac wedi cyhoeddi datganiad ynghylch yr ymgynghoriad fel sy’n ofynnol gan adran 27(4)(b) o’r Ddeddf honno. Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod y datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel sy’n ofynnol gan adran 27(5) o’r Ddeddf honno.

Gosodwyd drafft o’r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(b), (f), (g), (j) a (k) o’r Ddeddf ac fe’i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Ebrill 2019.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “addasiadau rhesymol” (*“reasonable adjustments”*) yw unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai’n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010(2);

ystyr “ardal benodedig” (*“specified area”*) yw ardal a bennir mewn amod i gofrestrriad y darparwr gwasanaeth fel man y mae’r gwasanaeth i’w ddarparu mewn perthynas ag ef;

(1) 2016 dccc 2; gweler adran 189 am y diffiniad o “a ragnodir” a “rhagnodedig”.

(2) 2010 p. 15, adran 20.

mae i “asiantaeth cymorth mabwysiadu” yr ystyr a roddir i “adoption support agency” yn adran 8 o Ddeddf 2002;

ystyr “asiantaeth fabwysiadu” (“*adoption agency*”) yw cymdeithas fabwysiadu neu wasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol;

ystyr “awdurdod lleol yn Lloegr” (“*local authority in England*”) yw—

- (a) cyngor sir yn Lloegr,
- (b) cyngor dosbarth ar gyfer ardal yn Lloegr nad oes cyngor sir ar ei chyfer,
- (c) cyngor bwrdeistref yn Llundain, neu
- (d) Cyngor Cyffredin Dinas Llundain;

ystyr “Bwrdd Comisiynu’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol” (“*the National Health Service Commissioning Board*”) yw’r corff a sefydlwyd o dan adran 1H o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;

mae i “cyflogai” yr un ystyr ag “employee” yn adran 230(1) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996(1);

mae i “cymdeithas fabwysiadu” yr ystyr a roddir i “adoption society” yn adran 2(5) o Ddeddf 2002, sef sefydliad gwirfoddol o fewn ystyr “voluntary organisation” yn y Ddeddf honno;

ystyr “cynllun cymorth mabwysiadu” (“*adoption support plan*”) yw’r cynllun sy’n nodi’r gwasanaethau cymorth mabwysiadu y mae’r awdurdod lleol wedi penderfynu eu darparu ar gyfer y plentyn a’r teulu mabwysiadol, sut y darperir hwy a chan bwy (os yw’n gymwys);

ystyr “cynllun gofal a chymorth” (“*care and support plan*”) yw cynllun ar gyfer y plentyn a wneir o dan adran 54 neu adran 83 o Ddeddf 2014(2);

mae i “cynllun lleoliad” (“*placement plan*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 36(2) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(3);

(1) 1996 p. 18.

(2) Diffinnir “Deddf 2014” yn adran 189 o’r Ddeddf fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).

(3) O.S. 2005/1313 (Cy. 95).

ystyr “cynrychiolydd” (“*representative*”) yw unrhyw berson a chanddo awdurdod cyfreithiol, neu sydd wedi cael cydsyniad yr unigolyn, i weithredu ar ran yr unigolyn;

ystyr “darparwr gwasanaeth” (“*service provider*”) yw darparwr gwasanaeth mabwysiadu sydd wedi ei gofrestru o dan adran 7 o’r Ddeddf;

ystyr “y datganiad o ddiben” (“*the statement of purpose*”) yw’r ddogfen sy’n cynnwys yr wybodaeth y mae rhaid ei darparu yn unol â rheoliad 3(c) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017⁽¹⁾ ac Atodlen 2 iddynt ar gyfer y man y mae’r gwasanaeth i’w ddarparu mewn perthynas ag ef⁽²⁾;

ystyr “Deddf 2002” (“*the 2002 Act*”) yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002⁽³⁾;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr “grŵp comisiynu clinigol” (“*clinical commissioning group*”) yw corff a sefydlwyd o dan adran 14D o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006⁽⁴⁾;

mae i “gwarcheidwad” yr ystyr a roddir i “guardian” yn adran 5 o Ddeddf Plant 1989⁽⁵⁾;

ystyr “y gwasanaeth” (“*the service*”), oni nodir fel arall, yw gwasanaeth mabwysiadu⁽⁶⁾ a ddarperir mewn perthynas ag ardal benodedig;

ystyr “y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd” (“*the Disclosure and Barring Service*”) a’r “GDG” (“*DBS*”) yw’r corff a sefydlir gan adran 87(1) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012⁽⁷⁾;

(1) O.S. 2017/1098 (Cy. 278).

(2) Mae rheoliad 3(c) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy’n dymuno darparu gwasanaeth mabwysiadu ddarparu datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae’r gwasanaeth i’w ddarparu ohono.

(3) 2002 p. 38.

(4) 2006 p. 41.

(5) 1989 p. 41.

(6) Mae i “gwasanaeth mabwysiadu” yr ystyr a roddir ym mharagraff 4 o Atodlen 1 i’r Ddeddf.

(7) 2012 p. 9.

mae i “gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol” (“*local authority adoption service*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019(1);

ystyr “gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig” (“*regulated adoption service*”) yw gwasanaeth mabwysiadu sydd wedi ei reoleiddio o dan y Ddeddf;

mae i “gwasanaethau cymorth mabwysiadu” yr ystyr a roddir i “adoption support services” yn adran 2(6) o Ddeddf 2002 a’r ystyr a roddir yn rheoliad 3 o Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019(2);

mae i “gweithiwr” yr un ystyr â “worker” yn adran 230(3) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996;

ystyr “a gymeradwywyd gan y gwasanaeth” (“*approved by the service*”) yw wedi ei gymeradwyo gan y gwasanaeth yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol yn unol â Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005;

mae i “person perthynol” (“*related person*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019;

ystyr “plentyn” (“*child*”) yw person sydd o dan 18 oed;

mae i “plentyn mabwysiadol” (“*adoptive child*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019;

ystyr “y rheoleiddiwr gwasanaethau” (“*the service regulator*”) yw Gweinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol(3);

mae i “rhiant mabwysiadol” (“*adoptive parent*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019;

mae “staff” (“*staff*”) yn cynnwys—

(1) O.S. 2019/291 (W.69).

(2) O.S. 2019/286 (W.66).

(3) Diffinnir “swyddogaethau rheoleiddiol” yn adran 3(1)(b) o’r Ddeddf.

- (a) personau a gyflogir gan y darparwr gwasanaeth i weithio yn y gwasanaeth fel cyflogai neu weithiwr, a
- (b) personau sydd wedi eu cymryd ymlaen gan y darparwr gwasanaeth o dan gontract ar gyfer gwasanaethau,

ond nid yw'n cynnwys personau y caniateir iddynt weithio fel gwirfoddolwyr;

ystyr "tystysgrif GDG" ("*DBS certificate*") yw tystysgrif o fath y cyfeirir ato ym mharagraff 2 neu 3 o Atodlen 1;

ystyr "unigolyn" ("*individual*"), oni bai bod y cyddestun yn nodi fel arall, yw—

- (a) yn achos cymdeithas fabwysiadu yng nghwrs trefnu mabwysiad neu ar ôl i fabwysiad gael ei drefnu—
 - (i) plentyn a all gael ei fabwysiadu, ei riant neu ei warcheidwad,
 - (ii) person sy'n dymuno mabwysiadu plentyn, neu
 - (iii) person mabwysiedig, ei riant, ei riant geni neu ei gyn-warcheidwad,

sy'n cael cymorth o'r math y mae'n ofynnol i gymdeithas fabwysiadu ei ddarparu yn unol â Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 neu Reoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005(1);

- (b) yn achos asiantaeth cymorth mabwysiadu, neu gymdeithas fabwysiadu yng nghwrs darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu, unrhyw berson sy'n cael gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, pan fo'n cael ei ddefnyddio mewn perthynas â'r cymorth a ddarperir i "unigolyn" fel y'i diffinnir yn y rheoliad hwn, mae "cymorth" yn cynnwys—

- (a) y cymorth y mae'n ofynnol i gymdeithas fabwysiadu ei ddarparu i unigolion yng nghwrs trefnu mabwysiad, neu ar ôl i fabwysiad gael ei drefnu, yn unol â Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu

(1) O.S. 2005/2689 (Cy. 189).

(Cymru) 2005 neu Reoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005, neu

- (b) y gwasanaethau cymorth mabwysiadu a all gael eu darparu gan gymdeithas fabwysiadu neu asiantaeth cymorth mabwysiadu.

RHAN 2

Eithriadau

Eithriadau

3.—(1) Nid yw'r gwasanaethau a ganlyn i'w trin fel gwasanaeth mabwysiadu, er gwaethaf paragraff 4 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaeth mabwysiadu)—

- (a) darparu gwasanaeth mewn perthynas â mabwysiadu gan berson, yng nghwrs gweithgaredd cyfreithiol (o fewn yr ystyr a roddir i "legal activity" yn Neddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007(1)), sy'n—
- (i) person awdurdodedig at ddibenion y Ddeddf honno, neu
- (ii) cyfreithiwr Ewropeaidd (o fewn yr ystyr a roddir i "European lawyer" yng Ngorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Gwasanaethau Cyfreithwyr) 1978(2));
- (b) darparu gwasanaethau i alluogi grwpiau o blant mabwysiadol, rhieni mabwysiadol a rhieni geni neu gyn-warcheidwaid plentyn mabwysiadol i drafod materion sy'n ymwneud â mabwysiadu;
- (c) darparu gofal seibiant i blentyn mabwysiadol neu riant mabwysiadol gan wasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref y mae person wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef o dan bennod 2 o'r Ddeddf;
- (d) darparu gofal seibiant mewn perthynas â phlentyn mabwysiadol sy'n cynnwys gwarchod plant neu ofal dydd o fewn yr ystyr yn Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd

(1) 2007 p. 29.

(2) O.S. 1978/1910.

(Cymru) 2010(1) ac y mae person wedi ei gofrestru mewn cysylltiad ag ef ar gyfer gwarchod plant neu ofal dydd o dan y Rhan honno o'r Mesur hwnnw;

- (e) darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan berson sy'n darparu'r gwasanaethau hynny—
 - (i) ac eithrio mewn partneriaeth ag eraill, a
 - (ii) o dan gontract ar gyfer gwasanaethau gyda—
 - (aa) gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig, neu
 - (bb) gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol.

(2) Ym mharagraff (1)(e), nid yw person yn cynnwys y lluosog ac nid yw'n gorff corfforaethol.

RHAN 3

Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau

Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth

4. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgîl digonol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben.

Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben

5.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—

- (a) cadw'r datganiad o ddiben o dan adolygiad, a
- (b) pan fo'n briodol, ddiwygio'r datganiad o ddiben.

(3) Oni bai bod paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad sydd i'w wneud i'r datganiad o ddiben o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y mae i gymryd effaith.

(1) 2010 mccc 1.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn achosion pan fo'n angenrheidiol diwygio'r datganiad o ddiben gydag effaith ar unwaith.

(5) Os yw paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth, yn ddi-oed, hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad a wneir i'r datganiad o ddiben.

(6) Y personau y mae rhaid iddynt gael eu hysbysu am unrhyw ddiwygiad i'r datganiad o ddiben yn unol â pharagraff (3) neu (5) yw—

- (a) y rheoleiddiwr gwasanaethau,
- (b) yr unigolion, ac
- (c) unrhyw gynrychiolwyr, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant unigolyn.

(7) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r datganiad o ddiben cyfredol i unrhyw berson ar gais, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant unigolyn.

Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella

6.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

(2) Rhaid i'r trefniadau hynny gynnwys trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau—

- (a) unigolion;
- (b) unrhyw gynrychiolwyr, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant yr unigolyn;
- (c) unrhyw awdurdod lleol neu awdurdod lleol yn Lloegr sydd wedi trefnu bod gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn cael eu darparu gan y gwasanaeth;
- (d) staff,

ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir a sut y gellir gwella hyn.

(3) Wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gwasanaeth, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—

- (a) ystyried safbwyntiau'r personau hynny yr ymgynghorir â hwy yn unol â pharagraff (2), a

- (b) rhoi sylw i'r adroddiad ar ansawdd y gwasanaeth a lunnir gan yr unigolyn cyfrifol yn unol â rheoliad 49(4).

Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol

7.—(1) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth sy'n unigolyn.

(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo sicrhau bod y person sydd wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol—

- (a) yn cael ei gefnogi i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol, a
- (b) yn ymgymryd â hyfforddiant priodol.

(3) Os bydd gan y darparwr gwasanaeth reswm dros gredu nad yw'r unigolyn cyfrifol wedi cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliadau yn Rhannau 11 i 15, rhaid i'r darparwr—

- (a) cymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r gofyniad, a
- (b) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau.

(4) Yn ystod unrhyw adeg pan nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer—

- (a) rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol,
- (b) goruchwyllo'r gwasanaeth yn effeithiol,
- (c) cydymffurfedd y gwasanaeth â'r gofynion a osodir gan y rheoliadau yn Rhannau 3 i 10, a
- (d) monitro, adolygu a gwella ansawdd y cymorth a ddarperir.

(5) Os nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—

- (a) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau, a
- (b) rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y trefniadau interim.

Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn

8.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn.

(2) Os yw'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r unigolyn ymgymryd â hyfforddiant priodol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau'n briodol fel yr unigolyn cyfrifol.

(3) Yn ystod unrhyw adeg pan yw'r unigolyn yn absennol, rhaid iddo sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer—

- (a) rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol,
- (b) goruchwyllo'r gwasanaeth yn effeithiol,
- (c) cydymffurfedd y gwasanaeth â gofynion y rheoliadau yn Rhannau 3 i 10, a
- (d) monitro, adolygu a gwella ansawdd y cymorth a ddarperir.

(4) Os nad yw'r unigolyn yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid iddo—

- (a) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau, a
- (b) rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y trefniadau interim.

Gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth

9.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol at ddiben cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y datganiad o ddiben.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnal cyfrifon priodol a chyfredol ar gyfer y gwasanaeth.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu copiâu o'r cyfrifon i Weinidogion Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau i gael cais i wneud hynny.

- aggregated data on notifications, safeguarding matters, whistleblowing concerns and complaints
- any action taken in relation to complaints
- the outcome of any audit of the accuracy and completeness of records.

Where this requirement corresponds to the date on which the service provider's annual

return is due, much of the information from the quality of service review can be used to complete the relevant section of the annual return in order to avoid unnecessary duplication.

Costs to service providers in submitting the quality of service review report are anticipated to be comparable to the preparation of the annual return. There may be some additional initial costs in moving to six monthly reports, but the quality of service review process should become embedded in the ongoing quality assurance process the provider has in place.

The Regulatory Impact Assessment for the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill estimated that it would take providers 4 working days (assuming the working week is 37 hours) to complete an annual return. The annual return, a requirement under Section 10 of the 2016 Act, contains a similar level of information to the quality of service review but as the quality of service review draws from existing monitoring information this should not take as long to complete. A reasonable estimation for this would be more like 2 working days, therefore incurring a cost of around £196 for each service, every six months. As providers are currently required to undertake similar reviews on an annual basis, the additional cost (of moving to six-monthly) should only be £196 per annum. However, this figure will vary depending on the salary of the person undertaking the review and may vary according to the size of the provider.

Risks: Consideration was given to the risks regarding the increased RI role during Phase 2 of implementation of the 2016 Act. The same considerations are relevant to the new requirement with respect to the RIs of adoption services, as a common approach is being taken to RIs across all regulated services under the 2016 Act.

The relevant section from the RIA on the Regulated Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2017 reads as follows:

The impact of the duties on RIs will, therefore, vary depending on the organisational model. During the consultation we became aware of risks regarding the duties as they relate to registered charities and RIs of larger organisations.

We were advised that, because trustees of charities (unincorporated bodies) are unpaid volunteers, they may not necessarily be willing, suitable or have the relevant expertise and understanding of the care and support service to take on the responsibility of the RI role. We were also advised that the option of paid officers/senior managers within the charity (which is where they suggest that the RI role should be placed) joining the board is not possible.

Larger organisations providing a number of regulated services in Wales have also identified challenges with the requirement for the RI to be a director. Their concerns focus on the duties being placed on RIs – including the requirement to visit the service – and the extent to which these duties can be delegated. They advised that the directors of larger organisations are too removed from the service and the provision of care and support services and may not be suitably experienced or qualified to carry out the

duties of the RI effectively. Similarly, they advised that the number of services these organisations provide would make it impossible for the directors to carry out this role. Furthermore, they suggested that this may deter future investment in Wales. There is therefore a risk here in terms of the RI role being carried out properly, consistent with the policy intent.

This risk will be mitigated by applying a wide interpretation to the term 'or similar officer' so that this could include the Chief Executive or a very senior level employee. This would provide a pragmatic solution for both charities and larger organisations without overly compromising the policy intent. The RIs would still be designated as part of the registration of the service and therefore the service regulator will have the opportunity to test their suitability for this role. The regulator would ensure a consistency of approach and an appropriate level of seniority within the organisation by applying the following criteria:

- authority to hire and fire managers and any other staff working in care services;*
- authority to set pay rates for all staff working directly within the care services;*
- authority to decide on investment decisions for the care services;*
- oversight of the health and safety within the relevant care services;*
- accountability for determining assurance arrangements and setting any benchmarks.*

The proposed approach set out in this advice, coupled with the amendments to the RI duties as set out in the draft regulations, is intended to provide a workable solution without compromising the policy intent.

This will ensure that the application and interpretation of section 21 of the 2016 Act by the service regulator is consistent, equitable across different types of organisations and consistent with the policy intent.

Risks/Benefits: No risks have been identified. The benefits of the requirements will be around securing better oversight of, and therefore greater accountability for, quality of service at senior level within the provider organisation, so driving service improvement.

Requirements on local authority managers

The following requirements will be placed upon local authority providers in respect of local authority managers:

- oversight of adequacy of resources
- other reports to the local authority provider
- engagement with individuals and others
- duty to ensure there are systems in place to record complaints
- duty to ensure there are systems in place for keeping of records
- duty to ensure policies and procedures are up to date
- quality of service review

- support for raising concerns

These requirements are the same as those placed upon the responsible individual (RI) of a regulated service provider. Local authority managers will already be undertaking most of these duties.

Consideration of **costs** and **risks/benefits** is as under Responsible Individuals above.

Offences

These requirements will be placed upon regulated adoption services providers.

Section 45 of the 2016 Act is a regulation-making power which allows the Welsh Ministers to provide that it is an offence for a service provider to fail to comply with a specified provision of the regulations made under section 27 of the 2016 Act (duties on service providers). Section 46 is a regulation-making power which allows the Welsh Ministers to provide that it is an offence for a responsible individual to fail to comply with a specified provision made under section 28 (duties on responsible individuals). Breaches of these requirements can be dealt with via a criminal prosecution.

The offences under sections 45 and 46 are intended to ensure that there is a proportionate approach to the creation of offences to enable CIW to take criminal action when it is appropriate to do so – both when a breach is sufficiently serious and when there is enough evidence to meet the threshold to commence legal proceedings.

During Phase 1 of implementation of the 2016 Act, consideration was given as to whether to specify that breach of all the requirements in regulations under section 27 and 28 should be categorised as offences. This would have broadly replicated the approach taken under the Care Standards Act 2000. It was decided that, for regulated services under the 2016 Act, the regulations would specify that breach of only the key requirements in regulations made under section 27 and 28 would be offences.

The regulations would therefore specify which requirements made under section 27 and 28 would give rise to offences if breached.

The benefits, costs and risks associated with this option were set out in the RIA for the Regulated Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2017¹.

Service providers who are liquidated

These requirements will apply to independent service providers.

Section 30(1) of the 2016 Act contains a power for Welsh Ministers to place requirements upon an appointed person. Section 30(2) states that an 'appointed person' means a person appointed as:

- (a) a receiver or administrative receiver of the property of a service provider who

¹ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11277-em/sub-ld11277-em-e.pdf>

- is a body corporate or a partnership;
- (b) a liquidator, provisional liquidator or administrator of a service provider who is a body corporate or a partnership;
- (c) a trustee in bankruptcy of a service provider who is an individual or a partnership.

The regulations would require an appointed person to give the Welsh Ministers notice, without delay, of when liquidators have been appointed and the reasons for it; and to inform the Welsh Ministers within 28 days of the appointment, of their intentions regarding the future operation of the service.

These are in line with the requirements already placed upon care homes, domiciliary care providers and other services regulated under the 2016 Act. An analysis of the benefits, costs and risks of this option are set out in the RIA for the Regulated Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2017 (See previous footnote).

Death of service provider who is an individual

These requirements apply to Regulated Adoption Services providers who are individuals.

Section 31 of the 2016 Act gives the Welsh Ministers the power to make regulations placing requirements on a personal representative of an individual service provider who has died to notify the Welsh Ministers of the provider's death.

The regulations would also state that, where a service provider who is an individual has died, the personal representatives of the individual must, without delay, give written notification of the death to the Welsh Ministers, and within 28 days of the death, notify the Welsh Ministers of their intentions regarding the future operation of the service.

The regulation would also state that the personal representatives of the individual may act in the capacity of the service provider for a period not exceeding 28 days or for such longer period (not exceeding one year) as the Welsh Ministers may agree.

These provisions are in line with the requirements already placed in relation to individual providers of care homes, domiciliary care providers and other services regulated under the 2016 Act. An analysis of the benefits, costs and risks of this option are set out in the RIA for the Regulated Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2017 (see footnote on previous page).

Competition Assessment

The competition filter test	
Question	Answer yes or no
Q1: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 10% market share?	Yes
Q2: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 20% market share?	No
Q3: In the market(s) affected by the new regulation, do the largest three firms together have at least 50% market share?	No
Q4: Would the costs of the regulation affect some firms substantially more than others?	No
Q5: Is the regulation likely to affect the market structure, changing the number or size of firms?	No
Q6: Would the regulation lead to higher set-up costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet?	No
Q7: Would the regulation lead to higher ongoing costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet?	No
Q8: Is the sector categorised by rapid technological change?	No
Q9: Would the regulation restrict the ability of suppliers to choose the price, quality, range or location of their products?	No

The filter test shows that it is not likely that the regulation will have any detrimental effect on competition; therefore we do not consider it necessary to undertake a detailed competition assessment for these Regulations since they will not affect the business sector in any significant way.

Post implementation review

As set out in the RIA for the 2016 Act the Welsh Government has two clear aims for the regulation and inspection of social care, the Act and, as such, these regulations. They are to:

- secure the well-being of citizens
- improve the quality of social care.

The 2016 Act also makes provision for a number of key reporting mechanisms which will offer a set of clear evidence to inform the post implementation review and establish how successful the Act has been in achieving both of these aims. The reporting mechanisms include:

- annual returns from service providers
- annual reports from local authorities and the review of those reports as undertaken in the Annual Review of Performance and Evaluation of Performance by the service regulator
- the annual report from the Welsh Ministers in their role as the service regulator
- the annual report of the workforce regulator.

CIW will monitor the implementation of these Regulations following their coming-into-force date of 29 April 2019.

SL(5)356 – Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro mân wall drafftio yn Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018"). Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn darparu bod paragraff 9(3)(a) o Atodlen 7 i Reoliadau 2018 (sy'n ymwneud â defaid a geifr mewn lladd-dy) yn darllen ar hyn o bryd:

'dynnu ymaith fadruddyn y cefn yn y lladd-dy yn dilyn yr archwiliad post-mortem'

Yn y Rheoliadau hyn, yn lle "yn dilyn" rhodder "cyn".

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad yw'r diwygiad yn effeithio ar y rheolaethau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy sy'n cael eu harfer na'r modd y'u cyflawnir.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae Rheoliadau 2018, a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, yn gweithredu ac yn gorfodi rhwymedigaethau'r UE mewn perthynas ag iechyd anifeiliaid. Felly, byddant yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl y diwrnod ymadael.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

27 Chwefror 2019



Eitem 7.1

SL(5)349 – Cod Ymarfer: Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol

Cefndir a Phwrpas

Mae'r canllawiau yn y cod hwn yn amlinellu sut y gall rheolwyr a darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol gydymffurfio â Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 ('y Rheoliadau'). Mae'r gofynion hyn wedi'u cynnwys yn Rhannau 2 i 13 o'r Rheoliadau.

Fodd bynnag, rheolwyr a darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am benderfynu sut bodlonir y gofynion yn y Rheoliadau, gan ystyried anghenion yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.

Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn defnyddio'r cod ymarfer hwn wrth wneud penderfyniadau ynghylch i ba raddau mae rheolwyr a darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol yn bodloni'r gofynion yn y Rheoliadau, ac fel sylfaen ar gyfer arolygu gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol.

Gweithdrefn

Rhaid gosod drafft o'r cod gerbron y Cynulliad. Os, o fewn 40 diwrnod (heb gynnwys unrhyw amser pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu pan fydd ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) o osod y drafft, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft, ni chaniateir i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod (neu'r cod diwygiedig) ar ffurf y drafft, a daw'r cod (neu'r cod diwygiedig) i rym ar y dyddiad a bennir drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.

Craffu o dan Rheol Sefydlog 21.7

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
21 Chwefror 2019**



SL(5)350 – Cod Ymarfer: Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol

Cefndir a Phwrpas

Mae'r canllawiau yn y cod hwn yn nodi sut y gall darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol a rheolwyr mewn awdurdodau lleol gydymffurfio â'r gofynion a osodwyd gan Reoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018 ('y Rheoliadau'). Mae'r gofynion hyn wedi'u cynnwys yn Rhannau 2 i 11 o'r Rheoliadau.

Fodd bynnag, darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am benderfynu sut y bydd y gofynion yn cael eu bodloni, gan ystyried anghenion y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r datganiad o ddiben y gwasanaeth.

Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn defnyddio'r cod ymarfer hwn i lywio penderfyniadau ynglŷn ag i ba raddau y mae darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn y Rheoliadau, a hefyd fel sail ar gyfer eu harolygiadau o wasanaethau maethu awdurdodau lleol.

Gweithdrefn

Rhaid gosod drafft o'r cod gerbron y Cynulliad. Os, o fewn 40 diwrnod (heb gynnwys unrhyw amser pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddi-ddymu neu pan fydd ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) o osod y drafft, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft, ni chaniateir i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod (neu'r cod diwygiedig) ar ffurf y drafft, a daw'r cod (neu'r cod diwygiedig) i rym ar y dyddiad a bennir drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.

Craffu o dan Rheol Sefydlog 21.7

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
21 Chwefror 2019**



Eitem 7.3

SL(5)352 – Canllawiau statudol ar gyfer comisiynu gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru

Cefndir a Phwrpas

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â chomisiynu gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ("VAWDASV") a gwasanaethau cysylltiedig gan awdurdodau perthnasol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf"). Diffinnir awdurdodau perthnasol fel awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Bydd y canllawiau'n dod yn statudol o 1 Ebrill 2019 ac yn cael eu cyhoeddi o dan adran 15 o'r Ddeddf ('pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol').

I sicrhau proses gydgysylltiedig a chydweithredol, bwriedir i'r canllawiau helpu i gomisiynu gwasanaethau eraill cysylltiedig gan gomisiynwyr o'r awdurdodau perthnasol, adrannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'r system cyfiawnder troseddol sy'n ceisio cyflawni dibenion y Ddeddf. I'r graddau hynny fe'u cyhoeddir o dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gweithdrefn

Mae'r weithdrefn ar gyfer dyroddi canllawiau wedi'i nodi yn adran 16 o'r Ddeddf. Rhaid gosod drafft o'r canllawiau gerbron y Cynulliad. Os, o fewn 40 diwrnod (heb gynnwys unrhyw amser pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu pan fydd ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) o osod y drafft, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft, ni chaniateir i Weinidogion Cymru ddyroddi'r canllawiau.

Os na wneir penderfyniad o'r fath cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r canllawiau ar ffurf y drafft.

Craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r canllawiau hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r canllawiau hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
28 Chwefror 2019**



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Bwyd (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019

DYDDIAD 19 Chwefror 2019

GAN Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Bwyd (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019

Trosolwg polisi o'r Offeryn Statudol (OS)

Yn bennaf, bydd y Rheoliadau hyn yn cywiro'r diffygion yn neddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir sy'n gosod y fframwaith ar gyfer arddangos gwybodaeth/labelu bwyd gorfodol, ei gyflwyniad, yn ogystal â gweithdrefnau lle mae busnesau bwyd yn penderfynu arddangos gwybodaeth yn wirfoddol.

Mae deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn caniatáu i ddefnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus ac i ddefnyddio bwyd yn ddiogel. Mae'n cynnwys rheolau ar:

- eglurdeb labeli,
- alergenau wedi'u cyflwyno'n glir ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw, a bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw.
- Cynhyrchion wedi'u nodi'n glir â 'cig wedi'i ffurfio' (*formed meat*), 'pysgod wedi'u ffurfio' (*formed fish*) neu gynhyrchion wedi'u dadmer.

Mae'r Offeryn Statudol hwn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Pwysau a Mesurau 1985 mewn perthynas â dangos maint net, ac i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir ar ddefnyddio alwmina actifedig wrth drin dŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon. Mae'r newidiadau yn rhai bychain iawn ac yn dechnegol, ac nid oes unrhyw newidiadau i bolisi.

Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 115/2010 sy'n gosod yr amodau ar gyfer defnyddio alwmina actifedig i gael gwared â fflworid o ddyfroedd mwynol naturiol a dyfroedd ffynnon
- Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr
- Deddf Pwysau a Mesurau 1985

Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae'r OS ond yn gwneud mân gywiriadau technegol i gyfraith yr UE a ddargedwir ac nid yw'n cynnwys trosglwyddo unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd. O ganlyniad, nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru na chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Diben y diwygiadau

Prif bwrpas y gwelliannau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r UE o ran rheoleiddio'r ddarpariaeth o wybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr. Byddant yn cyflwyno mân ddiwygiadau technegol i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir, megis:

- amnewid 'Undeb' gydag 'UK';
- 'Darpariaethau'r Undeb' gyda 'deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir'
- cael gwared ar gyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau eraill.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau technegol, nad ydynt yn newid polisi yn sylweddol mewn unrhyw ffordd, i ddarpariaeth ynghylch iaith labelu bwyd gorfodol.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau technegol i groesgyfeiriadau at Gyfarwydddebau yn Rheoliad 115/2010 ar ddefnyddio alwmina actifedig i gael gwared ar fflworid o ddŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 31A o Ddeddf Pwysau a Mesurau 1985 i adlewyrchu newidiadau a wnaed i ddwy Erthygl yn Rheoliad 1169/2011. Nid oes newid sylweddol i bolisi.

Nid yw'r OS hwn yn trosglwyddo unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd ac felly caiff ei gynnig fel un negyddol.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith bob diwygiad, yma: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-food-amendment-eu-exit-regulation-2019>

Pam rhoddwyd caniatâd

Nid oes unrhyw wahaniaethau rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) ar y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru / Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol fod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

Rheoliadau Bwyd (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 13 Chwefror 2019

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Negyddol arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	26 Chwefror 2019
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	W/C 25 Chwefror 2019
Y Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	4 Mawrth 2019
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 22
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Ddim yn hysbys
Y weithdrefn	Negyddol neu Gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau technegol i ddeddfwriaeth sylfaenol uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir, er mwyn cywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r UE.

Effaith y Rheoliadau yw sicrhau y bydd y fframwaith cyfreithiol ym maes labelu bwyd yn parhau i weithredu ar ôl y diwrnod ymadael.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 19 Chwefror 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw'r Cyngorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

DYDDIAD 1 Mawrth 2019

GAN Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Diwygio is-ddeddfwriaeth

- Rheoliad 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynnyrch amaethyddol.
- Rheoliad (EU) Rhif 510/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu'r trefniadau masnach sy'n gymwys i nwyddau penodol sy'n deillio o brosesu cynhyrchion amaethyddol.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) 566/2008 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 ar gyfer marchnata cig anifeiliaid buchol 12 mis neu ieuengach.
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 543/2011 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran y ffrwythau a'r llyisiau a'r sectorau ffrwythau a llyisiau wedi'u prosesu.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1295/2008 ar fewnforio hopys o drydydd gwledydd.
- Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei gael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol

Tudalen y 1 o 1

Mae'r offeryn hwn yn trosglwyddo swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gallai Bil Cynulliad yn y dyfodol sy'n ceisio gwaredu neu addasu'r swyddogaethau hyn sbarduno gofyniad i ymgynghori â Llywodraeth y DU.

Swyddogaethau a drosglwyddir i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Mae paragraff 10 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn berthnasol fan hyn. Mae hwn yn darparu na all darpariaeth mewn Deddf gan y Cynulliad ddileu nac addasu, neu roi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i ddileu neu addasu, unrhyw swyddogaeth awdurdod cyhoeddus ac eithrio awdurdod datganoledig Cymreig, oni fydd y Gweinidog (y DU) priodol yn cydsynio i'r ddarpariaeth. Gallai Bil Cynulliad yn y dyfodol sy'n ceisio gwaredu neu addasu'r swyddogaethau hyn sbarduno gofyniad i ymgynghori â Llywodraeth y DU.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE sy'n rhan o gyfraith y DU sy'n gysylltiedig â threfniant marchnadoedd cyffredin mewn amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol. Maent yn cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE ac yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithio'n gyfreithiol ar ôl hynny. Maent hefyd yn trosglwyddo amryfal swyddogaethau rheoleiddiol.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/W1TU9Qdr>

Pam na roddwyd cydsyniad

Er mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod y Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn faterion sydd wedi'u datganoli, ac nid yn faterion a gedwir yn ôl o dan unrhyw un o benawdau'r Atodlen Materion a Gedwir yn Ôl i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, nid yw Llywodraeth y DU o'r un farn. Felly, nid yw Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru o dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Lywodraeth y DU am eglurhad o'i safbwynt cyfreithiol ond ni chafwyd unrhyw ymateb.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod effaith Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 yn cyflawni amcanion polisi cyffredinol Gweinidogion Cymru o ran sicrhau bod marchnadoedd amaethyddol yn gweithredu'n effeithiol yn y DU.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn
Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
(Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019**
Gosodwyd yn Senedd y DU: 14 Chwefror 2019

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amh.
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh.
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 24
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Ddim yn ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amh.
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Y Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd yw'r fframwaith ar gyfer mesurau'r farchnad y darperir ar eu cyfer o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin ("PAC"), gan ddarparu'r fframwaith ar gyfer cynlluniau cymorth y farchnad sydd wedi'u sefydlu yn y gwahanol sectorau amaethyddol. Sefydlwyd y Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd fel modd o gyflawni amcanion y PAC ac yn arbennig i sefydlogi marchnadoedd, sicrhau safon deg o fyw ar gyfer cynhyrchwyr amaethyddol a chynyddu cynhyrchiant amaethyddol. Dros amser, mae wedi ymestyn i ddarparu

pecyn cymorth sy'n galluogi'r UE i reoli anwadalrwydd y farchnad, cymell cydweithrediad rhwng cynhyrchwyr amaethyddol a'u cystadleurwydd, a hwyluso masnach.

Mae'r Rheoliadau hyn yn mynd i'r afael â materion gweithredadwyedd sy'n cael eu creu gan ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE mewn perthynas â meysydd polisi a gedwir yn ôl yn y Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd, a hynny er mwyn sicrhau y gall y Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd barhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i amrywiol ddeddfwriaeth bresennol yr UE sy'n ffurfio rhan o gyfraith y DU yn ymwneud â'r Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd, ac yn darparu datrysiadau o ran gweithredadwyedd yn y meysydd polisi a ganlyn:

- cydnabod sefydliadau cynhyrchwyr,
- contractau ysgrifenedig yn y sector llaeth,
- rheolau apêl sy'n ymwneud â diogelu dangosyddion daearyddol,
- hwyluso a rheoleiddio'r broses o fewnforio cigoedd penodol,
- gwinoedd a bwydydd eraill, a
- rhoi ad-daliadau allforio ar gyfer nwyddau amaethyddol sydd wedi'u prosesu.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 1 Mawrth 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y canlynol yn ei datganiad: ysgrifenedig:

- *"Mae'r offeryn hwn yn trosglwyddo swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. **Gallai Bil Cynulliad yn y dyfodol sy'n ceisio gwaredu neu addasu'r swyddogaethau hyn sbarduno gofyniad i ymgynghori â Llywodraeth y DU. [ychwanegwyd pwyslais]***
- *(Swyddogaethau a drosglwyddir i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd) Mae paragraff 10 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn berthnasol fan hyn. Mae hwn yn darparu na all darpariaeth mewn Deddf gan y Cynulliad ddileu nac addasu, neu roi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i ddileu neu addasu, unrhyw swyddogaeth awdurdod cyhoeddus ac eithrio awdurdod datganoledig Cymreig, oni fydd y Gweinidog (y DU) priodol yn cydsynio i'r ddarpariaeth. **Byddai angen cydsyniad gan Weinidog perthnasol y Goron ar gyfer Bil Cynulliad yn y dyfodol sy'n ceisio gwaredu neu addasu'r swyddogaethau hyn. [ychwanegwyd pwyslais]**"*

2. Mae Rheol Sefydlog 30C.3(ii) yn datgan bod yn rhaid i'r datganiad ysgrifenedig "nodi unrhyw effaith y caiff yr offeryn statudol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru". Barn y Cynghorwyr Cyfreithiol yw bod y brawddegau yn natganiad Llywodraeth Cymru y tynnir sylw atynt uchod yn 'awgrymu' yn hytrach na 'nodi'.
3. Mae Llywodraeth Cymru, yn ei datganiad ysgrifenedig, wedi nodi y bu anghytuno â Llywodraeth y DU ynghylch a yw cynlluniau yn ymwneud â'r Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn faterion datganoledig neu'n faterion a gedwir yn ôl.
4. Gan fod Llywodraeth y DU o'r farn mai materion a gedwir yn ôl yw'r rhain, nid yw'n credu eu bod yn ddarostyngedig i delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol, ac felly nid yw wedi ceisio cydsyniad gan Weinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai materion datganoledig yw'r rhain.
5. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am eglurhad o safbwynt cyfreithiol Llywodraeth y DU, ond nid yw wedi cael unrhyw ymateb.
6. Er gwaethaf yr anghytuno ynghylch a yw'r materion dan sylw wedi'u datganoli neu'n faterion a gedwir yn ôl, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn fodlon bod effaith y Rheoliadau hyn yn cyflawni amcanion polisi cyffredinol Gweinidogion Cymru o ran diogelu a chynnal gweithrediad effeithiol marchnadoedd amaethyddol yn y DU.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn tynnu sylw at baragraffau 3, 4 a 5 yn y sylwadau uchod ynghylch datganiad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019
DYDDIAD	1 Mawrth 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019

Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2018/2034 sy'n sefydlu cynllun gwaredu ar gyfer pysgodfeydd dyfnforol yn nyfroedd y Gogledd-orllewin ar gyfer 2019-2021.
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2018/2035 sy'n pennu manylion gweithredu'r rhwymedigaeth lanio ar gyfer pysgodfeydd dyfnforol ym Môr y Gogledd ar gyfer 2019-2021.
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 1395/2014 sy'n sefydlu cynllun gwaredu ar gyfer pysgodfeydd pelagig bach penodol a physgodfeydd ar gyfer dibenion diwydiannol ym Môr y Gogledd.
- Rheoliad y Cyngor (EU) 2018/2025 sy'n pennu ar gyfer 2019 a 2020 y cyfleoedd pysgota ar gyfer cychod pysgota'r Undeb ar gyfer stociau pysgod dyfnforol penodol.
- Rheoliad y Cyngor (EU) 2019/124 sy'n pennu'r cyfleoedd ar gyfer 2019 i bysgota stociau pysgod a grwpiau o stociau pysgod penodol, sy'n gymwys i ddyfroedd yr Undeb ac, ar gyfer cychod pysgota'r Undeb, mewn dyfroedd penodol nad ydynt yn perthyn i'r Undeb.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei gael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae pysgodfeydd yn faes sydd wedi'i ddatganoli, ac mae gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad") gymhwysedd deddfwriaethol eang yn y maes hwn mewn perthynas â Chymru.

Bydd yr OS hwn yn estyn pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo rhai o bwerau cyfredol y Comisiwn Ewropeaidd i Gweinidogion Cymru mewn perthynas â

Chymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau gweinyddol mewn perthynas â Chymru yn ddilyffethair.

Ni fydd yr OS hwn yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Diben y diwygiadau

Mae'r offeryn hwn yn gwneud newidiadau o ran gweithredadwyedd o dan adran 8 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21(b) ohoni, i'r offerynnau y cyfeirir atynt uchod, er mwyn mynd i'r afael â diffygion mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae enghreifftiau o'r newidiadau technegol a wneir gan yr OS hwn yn cynnwys newid cyfeiriadau o'r "Undeb Ewropeaidd" i'r "Deyrnas Unedig"; ac "Aelod-wladwriaeth" i "gweinyddiaeth pysgodfeydd", i alluogi Gweinidogion Cymru fel Gweinyddiaeth Pysgodfeydd mewn perthynas â Chymru i gyflawni eu swyddogaethau penodol ar ôl ymadael â'r UE. Yn debyg, bydd cyfeiriadau at gychod a dyfroedd yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth yn cael eu newid i gychod a dyfroedd y DU.

Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod pysgota yn nyfroedd y DU yn parhau i gael eu rheoleiddio mewn ffordd gynaliadwy ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, ond nid oes unrhyw newidiadau o sylwedd yn cael eu gwneud i effaith y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin nac i'r ffordd y mae pysgodfeydd yn ymgymryd â'u gweithgareddau.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/TRhsL5IM>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Ar ôl ystyried yn llawn ac yn ofalus y diwygiadau arfaethedig, asesiad o'r cyfarwyddiadau polisi a dadansoddiad cyfreithiol o'r gwaith drafftio, nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai 2018 gan Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc.) (Ymadael â'r
UE) 2019**

Gosodwyd yn Senedd y DU: 28 Chwefror 2019

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amh.
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh.
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 26
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Ddim yn ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amh.
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a phargraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

Mae Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE yn rheoleiddio gweithgareddau pysgota a'r broses o orfodi'r gweithgareddau hynny yn nyfroedd y DU. Mae'r Polisi'n cynnwys tua 100 o Reoliadau'r UE sy'n pennu dull cyffredin o reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy drwy'r UE a'i dyfroedd. Mae'r Rheoliadau'n cael effaith uniongyrchol yng nghyfraith y DU.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i fynd i'r afael â diffygion yn neddfwriaeth y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Maent yn disodli cyfeiriadau at yr EU â chyfeiriadau at y DU ac yn rhoi pwerau gweithredu

i'r 'gweinyddiaethau pysgodfeydd', sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru mewn perthynas â dyfroedd a llongau Cymru.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 1 Mawrth 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r cynghorwyr cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm sy'n cyd-fynd â Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Ein cyf/Our ref MA-L/EM/0222/19

Mick Antoniwn AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd

01 Mawrth 2019

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu eich sylw at Offeryn Statudol (OS) a osodwyd yn Senedd San Steffan, sef Rheoliadau Asesiadau Cydymffurfio (Cydnabyddiaeth Gilyddol) 2019. Mae'r OS hwn yn ymwneud ag ymadael â'r UE, ond fe'i gwneir o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac felly nid yw o fewn cwmpas Rheol Sefydlog 30C. Felly, dyma fi'n ysgrifennu atoch yn lle gosod datganiad ysgrifenedig, yn yr ysbryd o sicrhau bod y Pwyllgor yn clywed am y datblygiadau diweddaraf.

Mae'r OS hwn yn offeryn sy'n ymwneud â diogelwch cynhyrchion ar y farchnad, sef mater a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, mae ei gwmpas yn eang, ac mae'n berthnasol i rai cynhyrchion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi i wneud rheoliadau o dan adran 2(2) ar gyfer y cynhyrchion o fewn cymhwysedd datganoledig y byddai'r OS hwn yn effeithio arnynt.

Ni fyddai'n bosibl i Weinidogion Cymru wneud y ddeddfwriaeth hon yng Nghymru, gan fod diogelwch cynhyrchion yn fater a gedwir yn ôl. Nid yw'r OS hwn yn trosglwyddo unrhyw swyddogaethau, ac nid yw ychwaith yn diwygio unrhyw systemau darparu gweithredol sy'n bodoli eisoes. Gan fod yr offeryn yn deddfu mewn maes a gedwir yn ôl, nid yw'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Ysgrifennodd Kelly Tolhurst AS, y Gweinidog dros Fusnesau Bach, Prynwyr a Chyfrifoldeb Corfforaethol, ataf fel mater o gwrteisi, gan geisio fy nghytundeb i fwrw ymlaen â'r OS hwn oherwydd ei effaith bosibl ar feysydd sydd wedi eu datganoli i Gymru. Rwyf wedi ysgrifennu'n ôl, gan gadarnhau nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw wrthwynebiad i'r OS hwn gael ei osod yn San Steffan.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 200
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd yr offeryn yn darparu cydnabyddiaeth ddiamwys, o fewn deddfwriaeth y DU, o ddilysrwydd asesiadau cydymffurfio (ar gyfer cymeradwyo diogelwch cynhyrchion) a gynhelir yn unol â rheoliadau'r UE. Dyma asesiadau a gynhelir gan gyrff mewn trydydd gwledydd sy'n rhan o Gytundeb Cydnabyddiaeth Gilyddol, neu gytundeb masnach sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer asesiadau cydymffurfio (y cyfeirir atynt yn eu crynswth fel Cytundebau), gyda'r Undeb Ewropeaidd. Awstralia, Seland Newydd, Canada, yr Unol Daleithiau, Japan, y Swistir, Twrci, De Korea, ac Israel yw'r gwledydd sydd â chytundebau o dan y mesur hwn.

Diben y deddfwriaeth ar gyfer diogelwch cynhyrchion yw sicrhau bod y cynhyrchion sydd ar gael ar y farchnad yn ddiogel a'u bod yn cydymffurfio. I'r perwyl hwn, mae deddfwriaeth y DU yn gosod rhwymedigaethau ar weithredwyr economaidd ym mhob cymal o'r gadwyn gyflenwi (gwneuthurwyr, y rheini sy'n mewnforio, dosbarthwyr, a chynrychiolwyr awdurdodedig). Y prif rwymedigaethau yw bod angen i gynhyrchion fod yn ddiogel neu'n gywir, gan fodloni gofynion penodol. Weithiau, mae gofyniad bod cynhyrchion yn cael eu hasesu (sef asesiadau cydymffurfio) i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol, cyn cael eu rhoi ar y farchnad. Os canfyddir nad yw cynnyrch yn ddiogel neu nad yw'n cydymffurfio mewn ffordd arall, bydd yn rhaid cymryd camau i unioni hynny, ac yn y pen draw gellir gorfodi ei fod yn cael ei dynnu oddi ar y farchnad.

Yn achos deddfwriaeth sy'n berthnasol i gynhyrchion penodol, mae deddfwriaeth y DU yn dilyn fframwaith sydd wedi ei ddatblygu ar lefel yr UE a'i defnyddio, gydag addasiadau, mewn llawer o feysydd cynnyrch. Bydd yr OS yn rhan o'r gwaith o gynnal y fframwaith hwnnw ar ôl inni ymadael â'r UE, a hynny fel mesur dros dro hyd nes y bydd mesurau mwy parhaol yn cael eu rhoi ar waith gyda'r trydydd gwledydd dan sylw.

Er mwyn lleihau unrhyw anhwylystod posibl i fusnesau a phrynwyr, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu mabwysiadu dull gweithredu sy'n sicrhau parhad ar gyfer cynhyrchion sy'n bodloni rheoliadau'r UE, os byddwn yn ymadael heb gytundeb. Mae hynny'n golygu y bydd y DU yn parhau i dderbyn cynhyrchion sydd wedi eu gwneud a'u hasesu gan gyrff yn yr UE, yn unol â rheoliadau'r UE, am gyfnod penodol. Mae'r OS yn dweud y dylid trin canlyniadau asesiadau cydymffurfio, a gynhelir gan gyrff y mae'r Cytundebau'n berthnasol iddynt, fel pe baent yn ganlyniadau sydd wedi eu cael gan un o gyrff yr UE. Bydd hyn yn sicrhau bod y dull gweithredu sy'n sicrhau parhad, a ddisgrifir uchod, hefyd yn berthnasol i asesiadau cydymffurfio a gynhelir gan gyrff trydydd gwledydd penodol, os byddwn yn ymadael heb gytundeb. Bydd hyn yn golygu bod cynhyrchion sy'n dilyn y broses hon yn cael eu cydnabod fel rhai dilys y ceir eu gwerthu ar y farchnad yn y DU. Bydd yr OS hwn hefyd yn cydnabod Cynrychiolwyr Awdurdodedig, sy'n bodoli eisoes (endidau cyfreithiol sy'n cyflawni swyddogaethau statudol penodol ar ran gwneuthurwyr), sydd wedi eu lleoli yn y Swistir a Thwrci, lle mae'r Cytundebau perthnasol yn caniatáu ar gyfer hynny.

Heb yr offeryn hwn, gallai fod ansicrwydd cyfreithiol i'r trydydd gwledydd hyn, a allai olygu y bydd lleihad yn y cyflenwadau cynhyrchion sy'n dod i'r DU o'r gwledydd hyn. Gallai sefyllfa fodoli felly lle y byddai lleihad yn y cyflenwad o fioladdwyr gael effaith andwyol ar y diwydiant ffermio yng Nghymru. Gallai lleihad yn y cyflenwad o gynhyrchion gwaed hefyd gael effaith negyddol ar iechyd a llesiant unigolion sy'n dibynnu ar y cynhyrchion hynny, yn ogystal â chynyddu'r costau i wasanaethau iechyd yng Nghymru. Byddai methu â gwneud yr OS hwn erbyn diwrnod ymadael â'r UE fod yn anfanteisiol i ddinasyddion Cymru. Mae'r offeryn yn gydnaws â pholisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau parhad wedi'r diwrnod hwnnw.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AC/AM

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Eitem 9.2



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/FM/0117/19

Mick Antoniw AM
Chair
Constitutional and Legislative Affairs Committee
National Assembly for Wales
SeneddCLA@assembly.wales

05 March 2019

Dear Mick,

I am writing to you in your capacity as Chair of CLAC, to bring The Challenges to Validity of EU Instruments (EU Exit) Regulations 2019 to your attention.

Chris Heaton-Harris MP, Parliamentary Under Secretary of State at DExEU, wrote to me regarding this SI as a courtesy, to notify the Welsh Ministers of plans to confer new functions on them. I have written to him acknowledging this SI, and confirming that the Welsh Ministers do not object to the conferral of these new functions. I am also laying a written statement in the National Assembly regarding this SI.

This SI legislates in a reserved area, and as such the Intergovernmental Agreement does not apply nor do the requirements of Standing Order 30C. However, unusually, this SI confers new functions on the Welsh Ministers. In the interests of transparency, and to give a more complete picture for CLAC's scrutiny of the UK EU Exit SI programme, I considered it appropriate to draw your attention to the SI.

Currently, UK courts and tribunals can make a preliminary reference to the Court of Justice of the European Union ('CJEU') where a decision on a question is necessary to enable the court or tribunal to give judgment. A reference can be made for a ruling on whether the relevant EU law is actually valid. Following the UK's exit from the EU, UK courts and tribunals will no longer be able to make preliminary references to the CJEU. Therefore, in the UK, the CJEU will have no role in questions of interpretation or validity with regard to retained EU law after exit and consequentially.

Paragraph 1 of Schedule 1 to the EU (Withdrawal) Act provides that, after the UK's departure from the EU, there will be no right in domestic law to challenge retained EU law on the basis that, immediately before exit day, an EU instrument was invalid. However, there is a power conferred on a Minister of the Crown to make regulations which, notwithstanding the general prohibition, allow for certain types of challenges to retained EU law.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 203

The Welsh Government's preferred position is that where cases have begun before exit day it is important that they are able to continue where possible. This is in line with the Welsh Government's general policy of continuity. This is also the policy position of the UK Government for court cases that will fall into these circumstances. Consequently, the Regulations under paragraph 1 of Schedule 1 make transitional provision so that UK courts and tribunals can consider the validity of EU law instead of the CJEU.

This approach is pragmatic. It avoids the possibility of cases getting caught in a legal limbo, whereby they cannot progress until a UK court or tribunal receives a ruling from the CJEU that will never arrive.

The draft regulations propose giving Welsh Ministers a power to intervene in cases. This reflects the fact that there may be cases where validity challenges are made concerning EU law with an impact in or on Welsh devolved matters. The likelihood of this power needing to be exercised is very low, but the existence of this power is essential should such a challenge be made before exit day. Additionally for parity, and to ensure all devolved administrations are treated equally, the regulations specify that where a court or tribunal is planning on issuing a declaration of invalidity, it must notify Welsh Ministers, as well as UK Ministers, Scottish Ministers and a Northern Ireland department.

As this SI legislates in relation to a reserved matter, there are no implications for the legislative competence of the National Assembly.

These powers would be time limited to deal only with cases that are already in progress before exit. There are only two current pending cases which would definitely be caught by these proposals if the UK's exit were taking place today. We cannot know how many other validity challenges will be made before exit day, but as there have only been ten such references in the last four years, it is unlikely to be a large number.

Yours sincerely,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Jeremy Miles'.

Jeremy Miles AM

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

Mark Drakeford AC
Prif Weinidog Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28 Chwefror 2019

Annwyl Prif Weinidog Cymru

Craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Ers mis Tachwedd 2018, mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd â'r gwaith o graffu ar dri Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac roedd dau ohonynt yn ymwneud â Brexit. O gofio bod gennych gyfrifoldeb cyffredinol am faterion cyfansoddiadol, cytunodd y Pwyllgor y dylem ysgrifennu atoch chi:

- yn ceisio eglurhad ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu a yw'n briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig, ac
- yn ceisio eglurhad ynghylch rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn ac a ydych yn bwriadu sicrhau bod amser ar gael i gyflwyno deddfwriaeth sy'n deillio o Brexit yn y Cynulliad.

Ar 11 Ionawr, fe wnaethoch ysgrifennu at y Llywydd yn egluro bod Gweinidogion Cymru yn ceisio pwerau dirprwyedig o dan Filiau'r DU yn ymwneud â Brexit yn hytrach na chyflwyno Biliau i'r Cynulliad, a hynny oherwydd na fyddai Llywodraeth Cymru " wedi llwyddo i gyflwyno'r swmp hwn o ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad mewn amserlen mor gywasgedig". Pe bai'r holl ddeddfwriaeth yn ymwneud â Brexit mewn meysydd datganoledig yn cael ei gwneud yng Nghymru, meddech, "yna rhwng Medi 2018 a Mawrth 2019 byddai wedi bod yn ofynnol gosod ... 4-6 o Filiau ychwanegol yn y Cynulliad."



Hoffem godi nifer o bwyntiau mewn perthynas â'r uchod.

Yn gyntaf, ymddengys bod yr honiad hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai angen yr holl ddarpariaethau deddfwriaethol yn y Biliau hyn erbyn y diwrnod ymadael. Nid ydym yn credu bod hyn yn gywir. Yn achos Bil Amaethyddiaeth y DU, byddai unrhyw fwllch deddfwriaethol sy'n deillio o Brexit yn digwydd ar ôl blwyddyn cynllun y PAC 2020. O ganlyniad, nid oes angen deddfwriaeth sylfaenol erbyn Mawrth 2019. Yn yr un modd, mae Bil Pysgodfeydd y DU yn cynnwys darpariaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r rhai sy'n angenrheidiol i sefydlu trefniadau cyffredin drwy'r DU cyn Brexit.

Yn achos y ddau Fil uchod, nid yw'n angenrheidiol i bob un o'u darpariaethau gael eu pasio cyn Brexit. Byddai'r darpariaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r rhai sy'n angenrheidiol i sicrhau parhad yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl Brexit wedi gallu cael eu cynnwys mewn Biliau a gyflwynwyd yn y Cynulliad. Mae'n amlwg, felly, nad oedd yn ofynnol gosod y Biliau hyn yn y Cynulliad cyn diwedd Mawrth 2019.

Yn ail, yn ystod ei waith o graffu ar nifer o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor wedi'i chael yn anodd dod o hyd i sail resymegol dros benderfyniad Llywodraeth Cymru ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio defnyddio Bil Amaethyddiaeth y DU fel cyfrwng i gyflwyno newidiadau sylfaenol a phellgyrhaeddol i'r system o roi cymorth ariannol i ffermwyr. Ar y llaw arall, mae'r Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaeth) yn cynnwys darpariaethau cul, anghynhennus y gellid bod wedi'u cyflwyno mewn Bil yn y Cynulliad.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro a oes unrhyw egwyddorion wrth wraidd y modd y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r broses Cydsyniad Deddfwriaethol ac, os felly, beth yw'r egwyddorion hynny.

Rydych yn dweud bod yn rhaid i Senedd y DU basio Biliau Amaethyddiaeth a

Physgodfeydd y DU erbyn diwedd mis Mawrth 2019. Pa gamau ydych chi'n bwriadu eu cymryd os na fydd hynny'n digwydd?

Mae'r ail fater yr hoffai'r Pwyllgor mynd i'r afael ag ef yn ymwneud â Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Yn natganiad eich rhagflaenydd am y Rhaglen Ddeddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2018, ymrwymodd "i barhau i adolygu'r angen i gyflwyno Biliau'n ymwneud â Brexit dros y 12 mis nesaf". Dywedodd hefyd fod lle wedi cael ei greu yn y rhaglen ddeddfwriaethol i sicrhau y gellid datblygu Biliau Brexit.



Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi sicrhau'r Pwyllgor ei bod yn fwriad ganddi i Filiau gael eu cyflwyno yn y Cynulliad mewn perthynas ag Amaethyddiaeth a Physgodfeydd ac i'r rhain gael eu pasio erbyn diwedd y Pumed Cynulliad. Mae'r Gweinidog hefyd wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r bwloch llywodraethu amgylcheddol sy'n deillio o Brexit, a hynny cyn gynted â phosibl.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau nad yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn wedi newid ac y bydd amser ar gael i gyflwyno Biliau sy'n deillio o Brexit yn y Cynulliad cyn diwedd y Cynulliad hwn.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Yn gywir,



Mike Hedges AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

cc Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/VG/0239/19

Mick Antoniw AM
Chair
Constitutional and Legislative Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

28 February 2019

Dear Mick,

The Welsh Government's Legislative Consent Memorandum on the Healthcare (International Arrangements) Bill

Following my letter to Stephen Hammond MP of 12 February 2019, the UK Government has agreed to the additional wording I requested be included in the Memorandum of Understanding to underpin the Healthcare (International Arrangements) Bill. An amendment to the Bill to place a requirement to consult devolved administrations will be made at Lords Report Stage. On that basis I am content to recommend that the National Assembly provides consent to the Bill.

The MoU now sets out:

- That Welsh Government will be consulted on the negotiation of agreements, with a role from the initial scoping through to the conclusion of a draft agreement;
- That Welsh Government will be consulted on the initial development and subsequent drafting of regulations under the Bill which implement these agreements, with the UK Government making every effort to proceed by consensus with the devolved administrations;
- That Welsh Government will be consulted where an agreement applies to or has implications for Wales, and on regulations giving effect to that agreement;
- That the UK Government will not normally make regulations without securing agreement from Devolved Administration Ministers beforehand;
- A process for exchanging Ministerial letters in the event of Devolved Administration agreement not being reached where regulations under Clause 2 intersect with devolved competence; and

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- That these letters be made available to both Houses of Parliament in the event that the regulations proceed to be made by the Secretary of State for Health and Social Care.

These assurances give Welsh Government a meaningful role in the development of future reciprocal healthcare policy. I am attaching a copy of the agreed Memorandum of Understanding.

I would like to restate my thanks for the work the Committee has done on this issue. While despite strenuous efforts, we were unable to achieve the consent provision on the face of the Bill which your Committee recommended, I hope you agree with me that the combination of the amendment and the MoU represent a positive development in this policy area.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

Vaughan Gething AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL
(MEMORANDWM RHIF 2)**

Y BIL GOFAL IECHYD (TREFNIADAU RHYNGWLADOL)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 26 Hydref 2018 ac mae i'w weld yn:
[Bill documents — Healthcare \(International Arrangements\) Bill 2017-19 — UK Parliament](#)

Amcanion Polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw galluogi'r Llywodraeth i ymateb i'r ystod ehangach o ganlyniadau posibl i Ymadael â'r UE mewn perthynas â gofal iechyd cilyddol, gan gynnwys sefydlu cytundebau newydd ar gyfer gofal iechyd cilyddol. Mae'r Bil hwn yn rhan o ymateb deddfwriaethol Llywodraeth y DU i Ymadael â'r UE. Er bod y Bil yn cael ei gyflwyno o ganlyniad i'r penderfyniad i ymadael â'r UE, gallai'r deddfwriaeth gael ei defnyddio hefyd i roi effaith i gytundebau gofal iechyd gyda thrydydd gwledydd eraill.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
5. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth:
 - I roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i ariannu a threfnu gofal iechyd y tu allan i'r DU;
 - I wneud rheoliadau i roi effaith i drefniadau gofal iechyd rhwng y DU a gwledydd, tiriogaethau neu sefydliadau rhyngwladol eraill megis yr Undeb Ewropeaidd (UE); ac
 - I alluogi i bersonau awdurdodedig gael eu dynodi at ddiben prosesu data, sy'n angenrheidiol i ategu'r trefniadau a'r cytundebau hyn.

Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

6. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil ar 15 Tachwedd 2018, yn seiliedig ar y fersiwn o'r Bil a gyflwynwyd i Senedd y DU ar 26 Hydref 2018.
7. Roedd y Memorandwm yn cadarnhau na fyddai modd i Lywodraeth Cymru argymhell i'r Cynulliad ei fod yn rhoi cydsyniad i'r Bil fel y'i drafftiwyd ar y pryd. Er bod Llywodraeth Cymru yn credu bod manteision o gael dull gweithredu cyson ar draws y DU gyfan o ran trefniadau gofal iechyd cilyddol, eglurodd bod ganddi bryderon ynghylch i ba raddau y byddai Llywodraeth Cymru yn rhan o'r gwaith o lywio a llunio'r trefniadau a wneir o dan y Bil.
8. Ers i'r Memorandwm cyntaf gael ei gyhoeddi, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddiwygio'r Bil er mwyn mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd y Gweinidog Gwladol dros lechyd wrth Bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 21 Chwefror y byddai'r Bil yn cael ei ddiwygio yn y Cyfnod Adrodd. Mae'r Memorandwm Atodol hwn yn egluro sut y caiff y Bil ei ddiwygio a sut yr ymdriniwyd â phryderon Llywodraeth Cymru. Mae Atodiad 1 yn nodi'r effaith y bwriedir i welliant Llywodraeth y DU ei chael.
9. Bydd y gwelliant arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, cyn gwneud rheoliadau o dan Gymal 2 sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Yn ogystal â'r gofyniad hwnnw, mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi cael ei ddatblygu rhwng y Gweinyddiaethau Datganoledig a Llywodraeth y DU i ategu'r gwelliant. Cytunwyd ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Gweinidog lechyd Gwladol ar 20 Chwefror 2019.
10. **Gofyniad i ymgynghori** - Mae Cymal 2 o'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn perthynas â Chymal 1, mewn cysylltiad â darparu gofal iechyd y tu allan i'r DU, ac i roi effaith i gytundebau gofal iechyd. Os bydd y DU yn ymadael â'r UE gyda chytundeb, rhagwelir y byddai'r pŵer hwn yn galluogi i drefniadau gofal iechyd gael eu rhoi ar waith gyda'r UE gyfan neu gydag Aelod-wladwriaethau unigol o fis Ionawr 2021 ymlaen neu gyda thrydydd gwledydd. Os na cheir cytundeb, byddai'r Bil yn galluogi Llywodraeth y DU i roi effaith i drefniadau gofal iechyd cilyddol newydd ar y diwrnod ymadael, neu wedi hynny. Er mai cyfrifoldeb y DU fyddai gwneud trefniadau dwyochrog neu amlochrog gyda thiriogaethau eraill a sefydliadau rhyngwladol, caiff y Cynulliad ddeddfu at y diben o ddilyn a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol y DU mewn perthynas â materion datganoledig, megis gofal iechyd. Bydd y gwelliant a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru (a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill) cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan Gymal 2 sy'n cynnwys

darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

11. **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** - Er mwyn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol mewn perthynas â'i rhan mewn trefniadau gofal iechyd cilyddol, safbwynt Llywodraeth Cymru yw y byddai angen i'r Memorandwm y cytunwyd arno gan Lywodraeth y DU nodi:

- yr ymgynghorid â Llywodraeth Cymru wrth negodi'r cytundebau ac y byddai ganddi ran yn y broses, o'r gwaith cwmpasu cychwynnol hyd at gwblhau cytundeb drafft;
- yr ymgynghorid â Llywodraeth Cymru ar ddatblygiad cychwynnol a drafftio dilynol y rheoliadau o dan y Bil a fyddai'n rhoi'r cytundebau hyn ar waith, gyda Llywodraeth y DU yn gwneud pob ymdrech i fwrw ymlaen mewn consensws â'r gweinyddiaethau datganoledig;
- yr ymgynghorid â Llywodraeth Cymru pan fyddai cytundeb yn berthnasol i Gymru, neu pan fyddai goblygiadau i Gymru, ac ar reoliadau a fyddai'n rhoi effaith i'r cytundeb hwnnw.

12. Yn ogystal â bodloni'r pwyntiau hyn yn llawn, mae'r Memorandwm hefyd yn nodi:

- na fyddai Llywodraeth y DU fel arfer yn gwneud rheoliadau heb sicrhau cytundeb gan Weinidogion y Gweinyddiaethau Ddatganoledig o flaen llaw;
- proses ar gyfer cyfnewid llythyron rhwng Gweinidogion pe na bai modd cael cytundeb gyda'r Gweinyddiaethau Ddatganoledig, lle bo croestorri rhwng rheoliadau o dan Gymal 2 a cymhwysedd datganoledig;
- bod y llythyron hyn ar gael i Ddau Dŷ'r Senedd pe bai'r rheoliadau'n mynd ymlaen i gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd a Gofal Cymdeithasol.

13. Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ei ddarparu yn Atodiad 2.

14. Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf yn nodi yr ystyrir bod Cymalau 1, 2, 4 a 5 o'r Bil yn gofyn am gael cydsyniad ar y sail eu bod yn gwneud darpariaeth at ddiben sy'n ymwneud naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad gan eu bod yn ymwneud ag iechyd. (Mae Cymal 5 yn ychwanegu at y pwerau a arferir o dan Gymal 2 ac yn eu hegluro. Mae Cymalau 3 a 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli, maint a chychwyn at ddibenion y cymalau eraill yn y Bil sy'n gofyn am gael cydsyniad.) Mae manylion y cymalau i' gweld yn y Memorandwm cyntaf yn:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=23365>

15. Yn ogystal, mae'r cymal newydd, sydd i'w fewnosod ar ôl Cymal 4 yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae felly'n ofynnol cael cydsyniad.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol)

16. Fel y nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen deddfwriaeth, ar ôl yr ymadawiad â'r UE, i wneud darpariaeth ar gyfer trefniadau gofal iechyd cilyddol er mwyn rhoi sicrwydd a sicrhad i drigolion y DU. Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu i unigolion deithio, gweithio a derbyn triniaeth y tu allan i'r DU, lle na fyddai modd gwneud hynny fel arall, o bosibl. Pe bai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb, byddai'n bwysig rhoi sicrhad i drigolion cyn gynted ag y bo modd. Mae brys, felly, o ran amserlen y Bil a'r deddfwriaeth a fydd yn deillio ohono.

17. Er bod Llywodraeth Cymru yn credu bod manteision i ddull gweithredu cyson ar draws y DU gyfan, bydd unrhyw drefniant gofal iechyd a sefydlir ar ran y DU yn effeithio ar y GIG yng Nghymru, felly bydd y deddfwriaeth hon yn cael effaith arwyddocaol ar faes polisi sydd wedi'i ddatganoli.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd

18. Mae cynnwys Llywodraeth Cymru wrth lywio a llunio'r cytundebau gofal iechyd sydd i'w darparu o dan y Bil a fydd yn cael effaith ar y GIG yng Nghymru yn parhau i fod yn bwysig. Eglurodd Llywodraeth Cymru wrth Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU bod cael sicrwydd deddfwriaethol ac anneddfwriaethol gan Lywodraeth y DU yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei chynnwys mewn materion sy'n effeithio ar feysydd datganoledig yng Nghymru. Mae'r sicrwydd hwnnw wedi'i ddarparu ar ffurf gwelliant Llywodraeth y DU i'r Bil a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ategol.

19. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datgan, o'u hystyried gyda'i gilydd, fod y gwelliant a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ategol, yn ddigon i alluogi Llywodraeth Cymru i argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi ei gydsyniad deddfwriaethol i'r Bil.

20. Mae'r gwelliant arfaethedig a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cael ymgysylltiad ystyrlon yn y gwaith o ddatblygu cytundebau gofal iechyd newydd ac y bydd Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r gwaith ar sail consensws. Os na fydd modd cytuno ar reoliadau, mae trefniadau cryf sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru fynegi barn. Mae hwn yn ganlyniad da sy'n rhoi rôl gref a hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ac fe'i sicrhawyd ar ôl llawer o gydweithio effeithiol rhwng y llywodraethau. Mae'n fodel gwerthfawr y gellid ei ddefnyddio mewn meysydd eraill lle mae angen i lywodraethau

gydweithredu ac mae'n arwydd o ymrwymiad y ddwy lywodraeth i gydweithio.

Goblygiadau ariannol

21. Mae costau ariannol ynghlwm wrth drefniadau gofal iechyd cilyddol. Mae'r costau hyn yn ymwneud â threfnu i dalu am driniaeth i drigolion y DU dramor a darparu gofal iechyd yn y DU i bobl nad ydynt yn byw yno. Gallai fod costau uwch neu is gan ddibynnu faint o wledydd y bydd y DU yn sefydlu trefniadau gofal iechyd cilyddol gyda nhw, a natur y cytundebau hyn.
22. Ysgrifennodd yr Arglwydd O'Shaughnessy at Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol ar 26 Hydref 2018, yn rhoi sicrhad na fydd unrhyw gostau ychwanegol i'r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â'r Bil. Eglurwyd ymhellach mewn trafodaeth y byddai unrhyw drefniadau a wneir ar lefel y DU i dalu am ddarparu triniaeth i drigolion y DU dramor yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, byddai costau triniaeth gan GIG Cymru i ddinasyddion y DU sy'n dychwelyd i'r DU i fod yn breswlydd fel arfer neu ar gyfer gofal iechyd sydd wedi'i eithrio rhag codi tâl ar bobl nad ydynt yn drigolion yn gorfod cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Casgliad

23. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn disgrifio'r newidiadau perthnasol a wnaed i'r Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) ers ei gyflwyno, ac mae'n cadarnhau mai safbwynt Llywodraeth Cymru yn awr yw argymhell y cydsyniad hwnnw i'r Cynulliad.

Vaughan Gething AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Mawrth 2019

**ATODIAD 1 – MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL
ATODOL: Y BIL GOFAL IECHYD (TREFNIADAU RHYNGWLADOL)**

**GWELLIANT ARFAETHEDIG Y LLYWODRAETH AR GYFER CYFNOD
ADRODD TŶ'R ARGLWYDDI**

Y Cymal a ddiwygiwyd	Effaith
Mewnosodir cymal newydd	<p>Mae'n rhoi gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â'r awdurdodau datganoledig perthnasol cyn gwneud rheoliadau o dan Gymal 2 ddim ond pan fo'r rheoliadau hynny yn cynnwys darpariaeth sydd o cymhwysedd datganoledig mewn deddfwrfa ddatganoledig.</p> <p>Diffinio awdurdodau datganoledig.</p> <p>Diffinio deddfwrfa ddatganoledig.</p> <p>Diffinio darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol awdurdodau datganoledig.</p>

**ATODIAD 2 – MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH AR GYFER
YMGYNGHORI O DAN ADRAN 5 O'R DDEDDF GOFAL IECHYD
(TREFNIADAU RHYNGWLADOL)**

A. Cyflwyniad ac egwyddorion hollgyffredinol

1. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r trefniadau a gytunwyd rhwng yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("yr Adran") a'r gweinyddiaethau datganoledig i fod yn gymorth ar gyfer ymgynghori ystyrion yn unol ag Adran 5 o'r Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) ("y Ddeddf"). Mae'r Adran yn cydnabod bod gan y gweinyddiaethau datganoledig ran bwysig i'w chwarae pan fo trefniadau i hwyluso triniaeth y tu allan i'r DU a gweithredu cytundebau gofal iechyd yn ymwneud â materion datganoledig.
2. Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi ymrwymo i ddarparu polisi gofal iechyd cilyddol sy'n gweithio ar gyfer pob rhan o'r DU. Bydd yr Adran yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, gan gynnwys y Swyddfeydd Tiriogaethol fel y bo'n briodol, i gyflawni'r amcan hwn.
3. Bydd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn gwneud pob ymdrech i fwrw ymlaen ar sail consensws er mwyn sicrhau system gofal iechyd gilyddol sy'n gyson.
4. Mae adran 5 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r awdurdod datganoledig perthnasol cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 2 sy'n cynnwys darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol deddfwrfa ddatganoledig.
5. Nid yw adran B o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn wedi ei chyfyngu i ymgynghori yn unol ag Adran 5 o'r Ddeddf. Mae adran C yn ymwneud â'r gofyniad i ymgynghori yn Adran 5 o'r Ddeddf.
6. Ategir y trefniadau a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn drwy ymgysylltiadau rheolaidd rhwng swyddogion yr Adran a swyddogion y gweinyddiaethau datganoledig, a fydd yn gymorth ar gyfer ymgysylltiadau Gweinidogol. Cydnabyddir y bydd effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn dibynnu ar barch gan y naill a'r llall at gyfrinachedd yr wybodaeth a gyfnewidir.
7. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, i'r graddau y mae'n ymwneud â chytundebau gofal iechyd cilyddol, yn gymwys os yr Adran yw

adran arweiniol llywodraeth y DU sy'n negodi cytundeb o'r fath. Bydd egwyddorion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gymwys hefyd i gytundebau gofal iechyd nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan Adran 2 o'r Ddeddf. Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn rhwymo mewn cyfraith ac nid yw'r trefniadau y mae'n eu nodi yn estyn y ddyletswydd statudol i ymgynghori yn Adran 2 o'r Ddeddf.

8. Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn effeithio ar unrhyw gytundebau neu drefniadau gofal iechyd yr ymrwymwyd iddynt a/neu y mae un o Weinidogion Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i ymrwymo iddynt gyda Gweriniaeth Iwerddon.¹

B. Llunio Polisi a Negodiadau

9. Bydd yr Adran yn trafod gyda swyddogion y gweinyddiaethau datganoledig ei chynigion polisi am y cyfeiriad strategol ar gyfer trefniadau gofal iechyd cilyddol newydd ac unrhyw asesiadau meintiol rhagamcanol o effaith y cynigion hynny. Bydd ymgysylltu o'r fath yn digwydd cyn gynted ag y bo modd mewn cyfnod ffurfiannol yn y broses o ddatblygu polisi. Bydd Gweinidogion yr Adran yn ysgrifennu at Weinidogion y gweinyddiaethau datganoledig i nodi'r cynigion polisi y maent yn eu cymeradwyo er mwyn creu consensws ynglŷn â'r cyfeiriad i'w gymryd mewn negodiadau. Nid yw rhannu'r polisi hwn yn rhwymo penderfyniadau Llywodraeth y DU.
10. I gefnogi'r broses o lunio polisi, bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn darparu sylwadau amserol i'r Adran ar y dogfennau a rennir ac unrhyw wybodaeth neu ddadansoddiad sy'n berthnasol i fod yn sylfaen i werthusiadau'r Adran o'r trefniadau presennol a'i hasesiadau effaith rhagamcanol.
11. Bydd yr Adran yn ceisio cael mewnbwn y gweinyddiaethau datganoledig ynglŷn â'i safbwyntiau negodi ar gyfer cytundebau gofal iechyd newydd i'r graddau y bônt yn ymwneud â materion sydd o fewn eu cymhwysedd datganoledig. Dylai Gweinidogion yr Adran a Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig fod yn barod ar gyfer ymgysylltiadau rhynglywodraethol ar fyr rybudd i fodloni'r terfynau amser rhyngwladol.
12. Bydd yr Adran yn trafod unrhyw gytundebau model neu ddrafftiau cychwynnol o gytundebau a ddrafftwyd gan yr Adran gyda'r

¹ Yn unol â chyfranogi yng Nghyngor Gweinidogol y Gogledd a'r De, y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig neu mewn perthynas â gweithgareddau Cyrff Gweithredu y Gogledd a'r De a sefydlwyd ar sail Llwyn Dau o Gytundeb Belfast.

gweinyddiaethau datganoledig cyn iddynt gael eu rhannu â thrydydd gwledydd.

13. Bydd yr Adran yn darparu diweddariadau i'r gweinyddiaethau datganoledig am hynt y negodiadau.
14. Bydd yr Adran yn rhannu gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â chytundeb, pan fyddid wedi dod iddo, gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, i sicrhau y bydd yn cael ei weithredu'n briodol ac yn llwyddiannus.
15. Bydd swyddogion yr Adran yn hysbysu swyddogion y gweinyddiaethau datganoledig mor fuan â phosibl os bydd unrhyw un neu rai o'i chynigion polisi neu unrhyw gytundebau gofal iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan Adran 2 o'r Ddeddf ac yn nodi ei rhesymau.
16. Bydd yr Adran yn trafod unrhyw gynigion ar gyfer adolygu neu ddiwygio cytundebau gofal iechyd a weithredwyd gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yn unol â'r trefniadau a nodir uchod. Bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn darparu i'r Adran sylwadau amserol a data, gwybodaeth a dadansoddiadau sy'n berthnasol i fod yn sylfaen i adolygiadau.

C. Drafftio Rheoliadau o dan Adran 2 o'r Ddeddf

17. Bydd swyddogion yr Adran yn rhannu fersiynau drafft o unrhyw reoliadau y mae Adran 5 yn gymwys iddynt gyda'r gweinyddiaethau datganoledig cyn eu cwblhau er mwyn rhoi cyfle i drafod y cynnwys a gwaith drafftio'r darpariaethau a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol deddfwrfa ddatganoledig.
18. Rhennir drafft terfynol o'r rheoliadau y mae Adran 5 yn gymwys iddynt gyda Gweinidogion perthnasol y gweinyddiaethau datganoledig mor fuan â phosibl a chyn iddynt gael eu gosod.
19. Bydd Llywodraeth y DU yn gwneud pob ymdrech wrth wneud rheoliadau y mae Adran 5 o'r Ddeddf yn gymwys iddynt i fwrw ymlaen ar sail consensws ac ni fydd fel rheol yn gwneud rheoliadau na chytunwyd arnynt gyda'r Gweinidogion o'r gweinyddiaethau datganoledig.
20. Os na ellir dod i gytundeb, bydd cyfnewid llythyrau rhwng y Gweinidogion. Byddai hynny'n rhoi cyfle i weinyddiaeth ddatganoledig nodi ei safbwynt, ac i'r Ysgrifennydd Gwladol esbonio'r rhesymau dros ffurf derfynol y rheoliadau a'r modd y mae Llywodraeth y DU wedi ceisio dod i gytundeb.

Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu bwrw ymlaen â gwneud y rheoliadau, ac yntau'n cael ei arwain gan egwyddorion y Cytundeb Rhynglywodraethol, dylai'r llythyrau a gyfnewidiwyd gael eu rhoi ar gael i ddau Dŷ'r Senedd pan gaiff y rheoliadau eu gosod.

D. Rheoliadau a wneir gan y Gweinyddiaethau Datganoledig

21. Bydd cymhwyso'r egwyddorion yn Adran B o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn sicrhau bod y gweinyddiaethau datganoledig yn ymwybodol o unrhyw reoliadau cydategol y bydd yn rhaid eu gwneud ochr yn ochr â'r rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 2 o'r Ddeddf. Yn unol â hynny, bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn gwneud y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol y mae eu hangen i sicrhau bod system gofal iechyd gilyddol sy'n gyson.
22. Er mwyn sicrhau cysondeb ledled y DU pan fo'n bosibl, bydd swyddogion y gweinyddiaethau datganoledig yn trafod gyda swyddogion yr Adran gynnwys a gwaith drafftio unrhyw reoliadau y maent yn bwriadu eu gwneud i weithredu cytundeb gofal iechyd cilyddol mor fuan ag y bo'n ymarferol cyn i'r rheoliadau gael eu gosod.

E. Gweithredu Gweithredol

23. Bydd swyddogion yr Adran yn cysylltu â swyddogion y gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau bod gweithrediad gweithredol y polisi gofal iechyd cilyddol yn gweithio ar gyfer pob rhan o'r DU. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, ddatblygu a chydgyssylltu pecynnau cyfathrebu pwrpasol i hysbysu unigolion a darparwyr gofal iechyd am gytundebau gofal iechyd cilyddol newydd.

F. Adolygu

24. Adolygir y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn cyn pen 24 mis ar ôl y dyddiad y cytunir arno, a bydd dyddiadau unrhyw adolygiadau dilynol i'w trefnu yn ystod yr adolygiad. Caiff yr adolygiad hwn ei gynnal gan swyddogion a'i gytuno gan y Gweinidogion.



Department
of Health &
Social Care

Stephen Hammond MP
Minister of State for Health

39 Victoria Street
London
SW1H 0EU

020 7210 4850

Vaughan Gething AM
Minister for Health and Social Services
5th Floor, Tŷ Hywel
Cardiff Bay CF99 1NA

27 FEB 2019

HEALTHCARE (INTERNATIONAL ARRANGEMENTS) BILL

I would like to reiterate my gratitude for your continued positive engagement with both myself and at official level in relation to the Healthcare (International Arrangements) Bill.

I am writing to assist with the Welsh Assembly's legislative consent process by confirming that the Government will be tabling an amendment to the Bill for Report Stage in the House of Lords on 12 March 2019.

As we have previously discussed, this amendment will place a statutory duty on the UK Government to consult the Devolved Administrations (DAs) where regulations under Clause 2 of the Bill would be within the DA's legislative competence. A Memorandum of Understanding (MoU) will underpin the amendment to the Bill, as agreed between the UK and Welsh Government. For ease of reference, I have attached these two documents as annexes.

The Government is committed to ensuring that arrangements will be conducive to the development of a reciprocal healthcare system that operates effectively across the whole of the UK and I look forward to continuing to work closely with you and at official level to achieve this.

I am copying this letter to the Scottish Government Cabinet Secretary for Health and Sport and the Northern Ireland Permanent Secretary for the Department of Health.

with best wishes

STEPHEN HAMMOND

Tudalen y pecyn 220

Healthcare (International Arrangements) Bill

AMENDMENTS
TO BE MOVED
AT REPORT

After Clause 4

BARONESS BLACKWOOD

Insert the following new Clause –

“Requirement for consultation with devolved authorities

- (1) Before making regulations under section 2 that contain provision which is within the legislative competence of a devolved legislature, the Secretary of State must consult the relevant devolved authority on that provision.
- (2) In this section –
 - “devolved authority” means the Scottish Ministers, the Welsh Ministers or a Northern Ireland department;
 - “devolved legislature” means the Scottish Parliament, the National Assembly for Wales or the Northern Ireland Assembly.
- (3) A provision is within the legislative competence of a devolved legislature if –
 - (a) it would be within the legislative competence of the Scottish Parliament if it were contained in an Act of the Scottish Parliament;
 - (b) it would be within the legislative competence of the National Assembly for Wales if it were contained in an Act of the Assembly (including any provision that could only be made with the consent of a Minister of the Crown); or
 - (c) the provision, if it were contained in an Act of the Northern Ireland Assembly –
 - (i) would be within the legislative competence of the Assembly, and
 - (ii) would not require the consent of the Secretary of State.”



Ein cyf/Our ref: MA - L/VG/0239/19

Stephen Hammond MP
Minister of State for Health
Department of Health and Social Care
39 Victoria Street
London
SW1H 0EU

28 February 2019

Dear Stephen,

HEALTHCARE (INTERNATIONAL ARRANGEMENTS) BILL

Thank you for your letters of 20 and 27 February notifying me that the proposed additional wording to the Memorandum of Understanding to underpin the intended amendment to the Healthcare (International Arrangements) Bill has been agreed.

I welcome this confirmation and wish to take the opportunity to echo your recognition of the positive working relationships between your Department and the Welsh Government which has enabled us to reach this position. I very much look forward to this approach continuing in relation to the development of healthcare agreements and any regulations giving effect to these agreements.

In the light of the agreement on the proposed amendment to the Bill and the MoU, I can confirm that arrangements are in hand for a Supplementary Legislative Consent Memorandum and Motion to be laid which will recommend that the National Assembly gives consent to the Bill. The Supplementary Legislative Consent Memorandum is due to be laid on 1 March 2019 and the debate on the Motion is scheduled for 12 March 2019. My officials will notify your Department of the outcome of the debate.

I would note that any statutory instrument which amends Welsh primary legislation would of course be subject to a Statutory Instrument Consent Motion in the Assembly, and it would be for the National Assembly for Wales to decide whether to recommend that consent be given.

I am copying this letter to the First Minister, the Scottish Government Cabinet Secretary for Health and Sport, the Northern Ireland Permanent Secretary for the Department for Health, the Secretary of State for Wales and the Chancellor of the Duchy of Lancaster and Minister for the Cabinet Office.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 222
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive style with a large initial 'V' and a long, sweeping tail on the 'g'.

Vaughan Gething AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon